**Wylfa Newydd**
**Adroddiad ar yr Effaith Leol**

Pennod 6: Diogelu

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS:  EN010007

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## 1.0 Diogelu

### 1.1 Trosolwg o'r effeithiau

1.1.1 Mae CSYM wedi paratoi'r bennod hon o safbwynt diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus lleol, gan roi ystyriaeth i'r risgiau posib sydd ynghlwm â chael gweithlu mudol sylweddol yn dod i'r ynys. Mae strategaeth rheolaeth gweithlu Horizon a gyflwynwyd fel rhan o'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu[1] (DCO) yn nodi:

*"Mae Pŵer Niwclear Horizon ("Horizon") yn amcangyfrif y bydd angen tua 8,500 o weithwyr i adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd ("y Prosiect") yn ystod cyfnod adeiladu prysuraf. Er bod yr amcangyfrif canolog ar gyfer maint y gweithlu yn 8,500, mae'r strategaeth hon (yn gyson â'r Asesiad Effaith Amgylcheddol) yn seiliedig ar 9,000 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod prysuraf. Rhydd hyn le i ystyried mwy o weithwyr yn gyffredinol neu ymhlith y rheiny sy'n ceisio llety dros dro."*

1.1.2 Fe fydd trosiant gweithlu yn ystod y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd, sy'n golygu y gallai hyd at 40,000 o unigolion gwahanol fod yn gweithio ar y prosiect ar un adeg neu'i gilydd[2].

1.1.3 Mae'r cynigion ar gyfer lletya'r gweithwyr hyn yn cynnwys:

a) Darpariaeth o hyd at 4,000 o welyau ar y Campws Safle (Llety Dros dro ar gyfer Gweithwyr a adeiladwyd yn bwrpasol yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN)).
b) Achos canolog sy'n ddibynnol ar ddefnyddio 3,000 o welyau mewn lletyau sy'n bodoli eisoes ar Ynys Môn a'r tir mawr.
c) Fe fydd 2,000 o weithwyr yn cael eu recriwtio o blith trigolion lleol ac ni fydd angen llety dros dro arnynt.

1.1.3 Felly, o'r 9,000 o weithwyr a ragwelir ar unrhyw adeg, ac i bwrpas asesu mae'n bosib na fydd 7,000 o weithwyr adeiladu â'u cartrefi'n lleol."

1.1.4 Nid oes unrhyw awgrym na fydd gweithlu Wylfa Newydd, neu'r un sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi, yn unrhyw beth ond teg a pharchus o'r gyfraith. Fodd bynnag, yn anorfod, gyda gweithlu o'r maint hwn, fe fydd elfen o'i fewn fydd yn fygythiad i'r rhai ar yr ynys sydd eisoes yn agored i niwed. Fe allai presenoldeb y gweithlu hwn hefyd ddenu elfennau sy'n fwy o risg i'r boblogaeth leol. **Mae'n bosib y bydd y risg hwn yn fwy sylweddol ac wedi ei ganoli fwy yng Ngogledd yr Ynys** (egwyddor agosrwydd) yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd gweithwyr yn ceisio byw mor agos â phosib at y safle – a fyddai'n ychwanegol at y Llety Campws Safle ar gyfer Gweithwyr Adeiladu (yn ôl Model Disgyrchiant Horizon fe fydd 1,024 o weithwyr yn byw mewn llety preifat a fyddai'n ychwanegol i'r 4,000 o weithwyr ar y campws safle).

[1] Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[413]
[2] Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[411]

1.1.5 Yn ei Strategaeth Lletya[3] mae Horizon yn nodi mai'r amcangyfrif canolog ar gyfer maint y gweithlu yw 8,500, gyda'r gobaith y bydd 2,000 ohonynt wedi eu recriwtio o blith trigolion lleol. **Mae'n debyg y bydd maint y gweithlu mudol tua hanner poblogaeth Caergybi, sef tref fwyaf Ynys Môn**. Disgwylir hefyd mai gwrywaidd fydd y gweithlu hwn yn bennaf (ond nid yn llwyr), gyda disgwyl i ychydig o deuluoedd yn unig ddod gyda'r gweithlu (disgwylir 225 o ddibynyddion, ond nid yw CSYM yn derbyn bod y ffigwr hwn yn ddigon cadarn na digon uchel)**.**

1.1.6 Mae yna hefyd debygolrwydd y gallai presenoldeb y gweithlu symudol ac ychwanegol hwn yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth honno sy'n agored i niwed, gan fod pobl ychwanegol yn cael eu denu i'r ynys a/neu'n rhan o fasnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern.

1.1.7 Mae gwybodaeth gan y Swyddfa Ystagedgau Gwladol (a adroddwyd yn Construction News)[4] yn nodi bod 88% o weithlu adeiladu'r DU yn ddynion. Mae amcangyfrifon mwy anffurfiol o'r gweithlu safle[5] yn awgrymu bod 99% yn ddynion.

1.1. 8 Mae Horizon wedi cynnig Strategaeth Rheoli Gweithwyr a Chod Ymddygiad er mwyn ceisio sicrhau y bydd ymddygiad gweithwyr yn cadw o fewn y gyfraith. Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn na fyddai'r camau hyn ar eu pennau eu hunain yn ddigonol er mwyn atal materion Diogelu posibl rhag digwydd yn ystod y cyfnod adeiladu'r prosiect ac yn amlygu'r meysydd Diogelu canlynol y gellid effeithio arnynt o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y boblogaeth:

a) Cefnogi Plant a Phobl Ifanc
b) Diogelu Plant a Phobl Ifanc
c) Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
d) Diogelu Pobl Hŷn
e) Diogelu Oedolion sy'n wynebu Risg
f) Defnydd Anghyfreithlon o Gyffuriau
g) Masnachu Pobl a/neu Caethwasiaeth Fodern
h) Trais yn erbyn Menywod, Trais yn y Cartref, Trais Rhywiol
i) Prevent

## 2.0 Cyd-destun

### Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar oblygiadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n *"wynebu risg" ac sydd angen eu diogelu* o'r prosiect arfaethedig, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu.

2.1.2 Y cyd-destun ar gyfer hyn yw'r gofynion statudol mewn perthynas â diogelu a hefyd y sefyllfa gyfredol ar Ynys Môn mewn perthynas â diogelu a'r boblogaeth leol.

[3] Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[412]
[4] '*Women in construction: what do the numbers say'*; Construction News, Mawrth 2017 (Dolen)
[5] '*Where are all the women? Why 99% of construction site workers are male' The Guardian Mai 2015* (Dolen)

2.1.3 Mae'r papurau DCO canlynol wedi eu hadolygu, ynghyd â deunyddiau lleol a chenedlaethol eraill:

a) 8.19 Asesiad Ardrawiad Iechyd
b) 8.22 Adroddiad Ardrawiad Cydraddoldeb
c) 8.23 Adroddiad Ardrawiad Cymunedol
d) 8.5 Strategaeth Rheoli Gweithlu
e) 6.3.10 Effeithiau Prosiect-eang – Adroddiad Cydlyniad Cymunedol
f) 6.1.2 Cyflwyniad i'r prosiect

2.1.4 Maent yn dangos nad yw Horizon, hyd yma, wedi mynd i'r afael â diogelu fel mater mewn ffordd arwyddocaol.

2.1.5 Diffinnir diogelu a hyrwyddo lles gan Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg (Canllaw Statudol LlC) fel:

a) Amddiffyn plant rhag camdriniaeth
b) Atal nam i iechyd neu ddatblygiad plant
c) Sicrhau fod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol.
d) Gweithredu er mwyn galluogi pob plentyn i gael y deilliannau gorau.

2.1.6 Mae pwerau a dyletswyddau amddiffyn plant ar Ynys Môn yn cael eu pennu gan gyfuniad o ddeddfwriaeth y DU a Chymru.

2.1.7 Mae arweiniad NSPCC '*Amddiffyn Plant yng Nghymru, Deddfwriaeth, polisi ac arweiniad*'[6] yn nodi 10 gwahanol ddarn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddiogelu plant yng Nghymru:

2.1.8 O'r rhain y tri mwyaf arwyddocaol yw:

a) Deddf Plant 1989
b) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
c) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.1.9 Rhoddir sylw i ddiogelu oedolion yng Nghymru hefyd yn y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a'r arweiniad cysylltiedig[7]. Mae *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg'* yn arbennig o berthnasol.

2.1.10 Cyhoeddir Cyfrol 5 a Chyfrol 6 (a chyfrolau eraill o ganllawiau statudol sy'n berthnasol i'r maes hwn) o dan reoliadau sy'n berthnasol i Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

---

[6] **NSPCC, '**Child protection in Wales: Legislation, policy and guidance' (Dolen)
[7] *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a'r arweiniad cysylltiedig (Dolen)

### Poblogaeth ar Ynys Môn

2.1.11 Mae gan Ynys Môn boblogaeth o tua 70,000, gyda'r mwyafrif o'r boblogaeth yn disgrifio'u hunain fel gwyn. Mae'r boblogaeth yn bennaf yn boblogaeth sy'n heneiddio gyda'r ganran trydydd uchaf o bobl dros 65 yng Nghymru, a chanran is o bobl o dan 16 na Chymru gyfan. Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn ardal sydd â phresenoldeb Cymraeg cryf. Mae yna 44 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen-is (LSOAs) ar yr ynys: sy'n 2.3% o holl *LSOAs* Cymru. Mae Morawelon, yn ardal Caergybi yn un o'r *LSOAs* sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru: gyda Thref Caergybi a Ffordd Llundain, eto yn ardal Caergybi, ymhlith yr 11% - 20% *LSOA* mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

### Poblogaeth plant ar Ynys Môn

2.1.12 Cafodd Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru[8] ei lunio yn 2017. Rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn gostwng yn raddol rhwng nawr a 2039. Mae'r rhagamcaniadau mwy manwl a wnaed gan Lywodraeth Cymru[9] yn nodi, yn ei hanfod, y bydd niferoedd pobl ifanc yn gostwng ychydig, bydd niferoedd oedran gweithio'n disgyn yn sylweddol, a bydd y boblogaeth hŷn yn tyfu.

### Plant y Gofelir Amdanynt ar Ynys Môn

2.1.13 Mae'r nifer o blant y gofelir amdanynt gan CSYM wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

**Tabl 1 – Nifer o Blant y Gofelir Amdanynt ar Ynys Môn, 2015-18**

| | Mawrth 2016 | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| **Plant y Gofelir Amdanynt** | 112 | 142 | 145 |

2.1.14 Yn 2016 roedd 60 o blant ychwanegol o'r tu allan i Ynys Môn yn derbyn gofal yn y Sir mewn amrywiaeth o leoliadau.

### Plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â throsedd ar Ynys Môn

2.1.15 Yn gynyddol, mae'r heddlu a'r gwasanaethau troseddau'r ifanc yng Nghymru yn ceisio ymdrin â throseddu llai difrifol mewn modd anffurfiol gan ganolbwyntio ar osgoi'r system cyfiawnder ieuenctid. Ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd (caiff y data ei gasglu ar gyfer y ddau â'i gilydd):

a) Mae'r nifer sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf *(FTEs)* wedi lleihau o 89 y flwyddyn yn 2013-14 i 37 yn 2017-18 (-58%)
b) Yn 2010-11 roedd y gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda 387 o bobl ifanc, yn 2017-18 y nifer oedd 172, lleihad o 55%.

[8] *'Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru'* (Dolen)
[9] *'Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (seiliedig ar 2014)": Prif amcanestyniad* (Dolen)

2.1.16 Fodd bynnag, rhwng 2013/14 a 2015/16, fe gododd y nifer o bobl ifanc a ddoiddefodd drosedd yn sylweddol, o tua 200 i 300 y flwyddyn.[10]

**Plant ag Anableddau ar Ynys Môn**

2.1.17 Yn 2015, roedd y nifer o blant ag anabledd, oedd yn hysbys, yn 75, yn dilyn gostyngiad sylweddol yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'n debyg fod hynny'n adlewyrchiad o'r newidiadau yn yr arferion cofnodi yn hytrach na newidiadau go iawn mewn niferoedd. Mae plant a phobl ifanc ag anableddau mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin na phlant a phobl ifanc eraill.

**Beichiogrwydd yn yr Arddegau ar Ynys Môn**

2.1.18 Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn nodi y gall sawl ffactor effeithio ar alluoedd rhiantu rhieni sy'n eu harddegau, yn cynnwys gwrthdaro o fewn teulu neu â phartner, dieithrio cymdeithasol a lefelau isel o hunanhyder a hunan-barch. Gall y ffactorau hyn effeithio ar les meddyliol y person ifanc. Bydd yr effaith o fod yn rhiant yn ei arddegau i'w weld ar y fam a'r tad a thra bydd y mamau o dan 20 oed bydd llawer o'r tadau rhwng 20 a 24 oed. Yn hanner cyntaf y ddegawd fe ostyngodd y nifer o achosion o feichiogrwydd yn yr arddegau ar Ynys Môn o 65 (2010) i 36 (2014). Yn nhermau'r gyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau fe gwympodd o 42/1000 benyw dan 18 oed yn 2008 lawr i 22/1000 yn 2016.

**Pobl ar Ynys Môn**

2.1.19 Mae poblogaeth oedolion Ynys Môn wedi amlygu newidiadau arwyddocaol dros y 15 mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â phobl hŷn. Mae niferoedd pobl hŷn yn debygol o barhau i gynyddu dros y 10-10 mlynedd nesaf, fel y gwelir yn nhabl 2 isod.

**Tabl 2 – Nifer o bobl ar Ynys Môn 65 oed a throsodd**

| Blwyddyn | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 17,000 | 18,000 | 20,000 | 21,000 | 22,000 | 23,000 |

2.1.20 Gall unigrwydd ac arwahanrwydd gyfrannu at fregusrwydd posib y rhan hon o'r boblogaeth.

**Pobl ag Anableddau Dysgu ar Ynys Môn**

2.1.21 Mae tua 300 o oedolion ag anableddau dysgu sy'n hysbys i GSYM. Fodd bynnag, mae Sefydliad Prydeinig Anableddau Dysgu (BILD) yn amcangyfrif[11] y gall y nifer gwirioneddol o bobl ag anableddau dysgu yn y boblogaeth fod hyd at bedair gwaith yn fwy na'r nifer sy'n hysbys i wasanaethau. Mae'n debyg bod gan y grŵp ehangach hwn anghenion dysgu mwy cymedrol, ond fe fyddant, serch hynny, yn agored i gamdriniaeth bosib.

[10] Asesiad Anghenion Poblogaeth (ibid)
[11] *'Need to know facts or figures about learning disabilities?',* BILD (Dolen)

2.1.22 Mae amcanestyniadau cyfredol yn awgrymu y bydd y nifer o bobl ag anableddau dysgu sydd angen cefnogaeth yn cynyddu 2% bob blwyddyn hyd at 2020 gan sefydlogi wedi hynny (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2007)[12]. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon eraill yn awgrymu y gall y cynnydd fod hyd at 8% yn flynyddol, yn enwedig ymhlith y grŵp ehangach y cyfeiriwyd ato uchod.[13]

**Pobl ag anableddau corfforol neu gyflyrau tymor hir sy'n cyfyngu ar Ynys Môn**

2.1.23 Mae rhyw 2,000 o bobl ag anabledd corfforol wedi cofrestru â CSYM. Mae oddeutu 1,300 â nam golwg ar Ynys Môn gyda 200 ohonynt â nam golwg sylweddol. Mae tua 10,000 o bobl ar Ynys Môn â chyflwr tymor hir sy'n cyfyngu, ac mae hwn yn debygol o gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf wrth i'r boblogaeth hŷn gynyddu.

**Gweithgarwch ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc a'u Teuluoedd ar Ynys Môn**

2.1.24 Mae Ynys Môn yn awdurdod cymharol fychan yn nhermau poblogaeth, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffigyrau sydd ar gael gan Ystadegau Cymru mewn perthynas â diogelu plant.

2.1.25 Mae'r niferoedd cymharol fychan yn golygu y gall newidiadau unigol/bychan effeithio'n anghymesur ar y newid ystadegol a'r angen am adnoddau. Er enghraifft, gall y nifer o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gynyddu'n sylweddol drwy ychwanegu plant o un teulu mawr i'r gofrestr. Hefyd, caiff plant yn aml eu tynnu oddi ar y gofrestr pan fydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt. Felly, er nad ydynt ar y gofrestr mwyach, mae'r effaith ar waith ac adnoddau yn parhau ac yn cynyddu.

**Tabl 3 – Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant – Ynys Môn**

| | Mawrth 2016 | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| **Rheswm dros y cofrestriad** | | | |
| **Esgeulustod** | 41 | 28 | 13 |
| **Emosiynol** | 23 | 26 | 11 |
| **Corfforol** | 41 | 32 | 13 |
| **Corfforol a Rhywiol** | 0 | 0 | 3 |
| **Corfforol ac Esgeulustod** | 6 | 7 | 0 |
| **Corfforol ac Emosiynol** | 0 | 0 | 1 |
| **Esgeulustod a Rhywiol** | 0 | 0 | 0 |
| **Esgeulustod ac Emosiynol** | 0 | 0 | 4 |
| **Rhywiol** | 13 | 8 | 1 |
| **Dim categori** | 0 | 0 | 0 |
| **Awdurdod Lleol Arall** | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm ar y gofrestr** | 124 | 101 | 46 |

2.1.26 Fel y gwelir yn nhabl 3, mae'r ffigyrau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac ar hyn o bryd maent yn llawer agosach at gyfartaled Cymru gyfan.

[12] 'Asesiad poblogaeth Gogledd Cymru", Mudiad cydweithredol gofal cymdeithasol a lles Gogledd Cymru, 2017, (Dolen)
[13] ibid

2.1.27 Er bod cwmpas y ffigyrau hyn yn gyfyngedig maent yn rhoi arwydd da o'r nifer o blant a phobl ifanc sydd mewn angen oherwydd camdriniaeth.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar Ynys Môn**

2.1.28 Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) wedi bod yn faes blaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ac mae yna banel amlasiantaethol Plant Coll a CSE.

2.1.29 yn Nhachwedd 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o'r Canllaw Statudol ar gyfer Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol.[14] Nododd yr adolygiad y diffiniad Cymreig o Gamfanteisio ar Blant yn Rhywiol:

2.1.30 *"Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath ar gam-drin rhywiol yn gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur ddiymgeledd y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol y berthynas ac i roi caniatâd gwybodus (LlCC 2009:3)."*

2.1.31 Mae gan Gymru Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol (SERAF) sy'n gweithredu ar sail adnabod ffactorau risg a bresgusrwydd sy'n cyd-berthnasu â sgôr risg sy'n penderfynu ar y categori risg a'r gweithdrefnau amddiffyn plant cysylltiedig, er bod adolygiad diweddar wedi nodi nad yw'r canllaw presennol a phrotocol SERAF yn addas i bwrpas bellach.

2.1.32 Yn Lloegr fe gyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant yr adroddiad *"If only someone had listened"* - The Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups"[15] Nododd yr adroddiad naw methiant arwyddocaol yn yr ymateb cyfredol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant:

a) Mae nifer o asiantaethau'n anghofio'r plentyn.
b) Nid yw gwasanaethau'n llwyddo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
c) Mae diffyg arweinyddiaeth ymysg rhai uwch swyddogion ar y lefel leol, nid yw staff Proffesiynol yn llwyddo i adnabod dioddefwyr.
d) Mae gormod o gyrff yn parhau i weithio'n ynysig wrth geisio mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
e) Mae'r oedi wrth ymateb yn y maes yn parhau amharu ar ddatblygiad a gwelliant arferion wrth fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
f) Nid yw canlyniadau'n cael eu monitro.

2.1.33 Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fater sydd â chyswllt agos â masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern (gweler yr adran isod), yn y ffaith bod cyswllt agos

[14] 'Adolygiad o'r Canllaw Statudol ar gyfer Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol', Llywodraeth Cymru Tachwedd 2017 (Dolen)
[15] "*If only someone had listened"* - Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups, Adroddiad Terfynol Tachwedd 2013 (Dolen)

rhyngddynt oll â'r diwydiant rhyw a'u bod yn niweidiol i'r rhai gaiff eu heffeithio ganddynt. Gall nifer arwyddocaol o'r plant gaiff sy'n cyrraedd y DU drwy fasnachu pobl gael eu gorfodi i'r fasnach rhyw ar ryw adeg.

## Gweithgarwch Diogelu Oedolion ar Ynys Môn

2.1.34 Mae gwybodaeth am weithgarwch diogelu oedolion ar Ynys Môn ar gael gan Ystadegau Cymru ac fe'i gwelir yn nhablau 4 a 5 isod. Eto, mae'r niferoedd isod yn is na'r rhai ar gyfer awdurdodau eraill Cymru. Serch hynny, mae'r niferoedd sydd teilyngu ymchwiliad cychwynnol yn arwyddocaol, ac mae'n amlwg bod cyfran uchel yn mynd ymlaen i ymholiad pellach a bod y rhan fwyaf o'r rheiny yn gofyn am gamau pellach gan yr awdurdod lleol. Hefyd, o'r ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, roedd 20% yn rhan o ymchwiliad troseddol.

**Tabl 4 – Data Diogelu Oedolion ar gyfer Ynys Môn 2016/17**[16]

| **Oedolion yr amheuir o fod mewn perygl (ffigyrau'r awdurdod lleol)** | **166** |
|---|---|
| Oedolion a amheuir o gael eu camdrin fwy nag unwaith | 28 |
| Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am oedolyn a amheuir o fod mewn perygl | 190 |
| Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am oedolyn a amheuir o fod mewn perygl a aeth ymlaen i ymchwiliad pellach. | 169 |
| Nifer o ymchwiliadau yn ystod y flwyddyn oedd o'r farn bod angen gweithredu pellach gan yr awdurdod lleol | 148 |
| Nifer o oedolion wrthododd gymryd rhan yn y gweithredu a gafodd ei adnabod mewn ymchwiliad gan awdurdod lleol | 8 |
| Nifer o ymchwiliadau a gwblhawyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn | 75<br>(15 Troseddol) |

**Tabl 5 – Dadansoddiad o'r mathau o gamdriniaeth honedig 2016/17**

| **Math o gamdriniaeth** | **18 oed a throsodd** | **65 oed a throsodd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Corfforol | 11 | 42 | 53 |
| Rhywiol | 5 | 12 | 17 |
| Emosiynol/Seicolegol | 16 | 31 | 47 |
| Ariannol | 15 | 30 | 45 |
| Esgeulustod | 12 | 48 | 60 |
| **Cyfanswm** | **59** | **160** | **219** |
| O'r rhain: teuluol | 17 | 60 | 77 |

## Masnachu Pobl/Caethwasiaeth Fodern ar Ynys Môn

[16] '*Data Diogelu Oedolion*', Ystadegau Cymru (Dolen)

2.1.35 Mae cyswllt agos rhwng caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a chamfanteisio rhywiol, a gall y tri ymwneud â phlant ac oedolion.

2.1.36 Caiff y cysylltiadau cryf rhwng masnachu pobl, caethwasiaeth fodern a'r diwydiant rhyw eu pwysleisio yn yr adroddiad ymchwil gan Grŵp Seneddol o bob plaid ar Buteindra a'r Fasnach Ryw Fyd-eang: *Behind Closed Doors: Organised sexual exploitation in England and Wales.*'[17]

2.1.37 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru gyfan ar gyfer Diogelu Plant a allai fod Wedi Cael Eu Masnachu[18] yn nodi bod ystod eang o wasanaethau sydd â rôl benodol yn y maes hwn. Ar gyfer Gwasanaethau Plant mae'n nodi y gall eu cyfrifoldebau (fel sefydliad Ymateb Cyntaf) gynnwys:

a) Nodi unigolyn arweiniol yn yr ALl ar gyfer masnachu pobl.
b) Adnabod dioddefwyr/dioddefwyr posib yn unol â phroffiliau cytunedig neu dderbyn cyfeiriadau gan asiantaethau eraill sydd wedi eu hadnabod.
c) Cyfrannu at broffilio dioddefwyr/dioddefwyr posib ar y cyd ag asiantaethau eraill.
d) Cynnal cyfweliadau cychwynnol, yn cynnwys cyfweliadau ar y cyd â'r heddlu lleol, er mwyn asesu risg, niwed a chynlluniau amddiffyn plant cytunedig.
e) Darparu lle diogel i ddioddefwyr/ddioddefwyr posib, yn cynnwys llety gan yr ALl.
f) Darparu gwasanaethau cefnogi (e.e. cyngor cyfreithiol, cwnsela).
g) Monitro Plant y Gofelir Amdanynt am arwyddion eu bod yn cyfarfod y masnachwyr pobl, allai gynnwys monitro galwadau ffôn a darparu amgylchedd diogel fel nad oes rhaid i'r plentyn adael gyda'r masnachwr pobl. Fe allai hyn olygu cymryd camau cyfreithiol i sicrhau diogelwch y plentyn.
h) Gweithio gydag asiantaethau arbenigol, fel y Groes Goch Brydeinig neu'r NSPCC, er mwyn dod o hyd i berthnasau yn wlad gartref, a gwirio beth fyddai orau i'r plentyn, ac a ddylent allu aros yn y DU neu a yw'n ddiogel iddynt ddychwelyd adref.
i) Sicrhau bod sefydliadau gwirfoddol neu wasanaethau cefnogi eraill ar gael os ydynt yn dychwelyd i'w gwlad gartref.
j) Darparu cyngor ar bwy i gysylltu â nhw mewn perthynas â'u statws mewnfudo.
k) Bod o gymorth wrth adnabod masnachwyr pobl posib sy'n ffugio bod yn berthnasau.
l) Sicrhau cyswllt gyda'r heddlu a darparu gwybodaeth i'r heddlu.

2.1.38 Mae dyletswydd gyffelyb ar yr Awdurdod Lleol mewn perthynas ag oedolion allai fod mewn perygl o gaethwasiaeth fodern/masnachu pobl.

2.1.39 Mae Caergybi yn un o brif borthladdoedd y DU a chafwyd sawl adroddiad newyddion diweddar oedd yn nodi Caergybi fel man mynediad ar gyfer pobl sy'n

[17] Ymchwiliad Grŵp Seneddol o bob plaid ar Buteindra a'r Fasnach Ryw Fyd-eang: *Behind Closed Doors: Organised sexual exploitation in England and Wales*', 2018 (Dolen)
[18] *'Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru gyfan ar gyfer Diogelu Plant a allai fod Wedi Cael Eu Masnachu'*, Llywodraeth Cymru, 2008 (Dolen)

cael eu masnachu[19],,[20]. Mae adnoddau'r Heddlu ac adnoddau eraill wedi eu dyrannu er mwyn ymateb i'r mater hwn, a ystyrir yn flaenoriaeth ganddynt.

2.1.40 Adroddodd y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol[21] am y tro cyntaf ers cadw cofnodion, mai Prydeinig yw cenedligrwydd y nifer uchaf o ddioddefwyr masnachu pobl un y DU. Fodd bynnag, mae 85% o'r cyfeiriadau a wneir drwy'r drefn gyfeirio genedlaethol yn ymwneud ag unigolion o dramor, llawer ohonynt wedi eu masnachu. Mae caethwasiaeth fodern yn derm eang sy'n cwmpasu troseddau masnachu pobl a chaethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol. Mae diogelu plant rhag camfanteisio troseddol, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern ar frig agenda'r Llywodraeth a chyhoeddwyd adroddiad diweddar ar waith a wnaed yn 2018 er mwyn mynd i'r afael â gwersi a ddysgwyd yn y gorffennol. [22]Mae'n drosedd gudd, hynod gymhleth ac mae'n anodd mesur yn fanwl pa mor gyffredin ydyw. Mae Gwefan Heddlu Gogledd Cymru[23] yn nodi mai caethwasiaeth fodern yw'r ail drosedd fwyaf proffidiol yn y byd, ail yn unig i gyffuriau, a gall dioddefwyr y drosedd ddioddef y canlynol:

a) Gorfodaeth i weithio, yn aml mewn amodau annifyr, am ychydig neu ddim tâl,
b) "Cyflogwr' sy'n eu rheoli, sy'n defnyddio camdriniaeth, neu fygythiadau o gamdriniaeth.
c) Cael eu trin fel gwrthrych neu eiddo, cael eu prynu a'u gwerthu fel eiddo.
d) Cyfyngiad ar yr hyn y gallent ei wneud, lle gallent fynd, â phwy y gallent siarad ac yn y blaen.

2.1.41 Cafodd yr amcangyfrif cyfredol mwyaf cadarn o faint caethwasaieth fodern yn y DU ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref yn 2014, oedd yn amcangyfrif bod rhwng 10,000 a 13,000 dioddefwr posib o gaethwasiaeth fodern yn y DU yn 2013.[24]

2.1.42 Mae'r Mynegai Caethwasiaeth Byd-eang (GSI)[25] yn amcangyfrif bod 136,000 o bobl yn byw mewn caethwasiaeth fodern yn y DU yn 2016, gan amlygu cyfradd o 2.1 dioddefwr ar gyfer pob mil o bobl yn y wlad. Yn ôl y GSI[26] *"mae Asiantaeth Troseddau Genedlaethol y DU (NCA) wedi darganfod mai "agor cil y drws" ar y canfyddiadau'n unig yw hyn gan nodi bod y gwir niferoedd yn debygol o fod yn sylweddol uwch – degau o filoedd – gan fod llawer o ddioddefwyr yn amharod neu ddim yn gallu mynd at yr awdurdodau, neu efallai na chânt eu gweld fel dioddefwyr caethwasiaeth fodern hyd yn oed os ânt at yr awdurdodau."*

2.1.43 Cynhyrchodd Asiantaeth Troseddau'r DU ffigyrau ar gyfer y nifer o bobl a gyfeiriwyd o Gymru drwy'r Drefn Gyfeirio Genedlaethol[27]:

---

[19] North Wales Police boss wants new law to beat slavery (Dolen)
[20] The Vietnamese gang at the centre of a plot to try and smuggle people through North Wales (Dolen)
[21] Top nationality of slavery victims in UK: British Ar wefan y Comisiynydd Annibynnol (Dolen)
[22] Protecting children from criminal exploitation, human trafficking and modern slavery: addendum (Annex 6A)
[23] 'Caethwasiaeth Fodern' Gwefan Heddlu Gogledd Cymru (Dolen)
[24] '*2017 UK Annual Report on 2015 Report of the Modern Slavery', Home Office,* (Dolen)
[25] '*018 Country Studies Findings United Kingdom'* Global Slavery Index (Dolen)
[26] GSI, ibid
[27] '*National Referral Mechanism Statistics – End of Year Summary 2017', NCA, 2018,* (Dolen)

a) Yn 2016, cafodd 3,804 dioddefwr posib eu cyfeirio drwy'r Drefn Gyfeirio Genedlaethol (cynnydd o 16% ers 2015), o'r rhain roedd tua thraean (1,277) yn blant. Cafodd 3-4% o gyfanswm y cyfeiriadau a wnaed yn y DU eu gwneud yng Nghymru.

b) Yn 2017 yng Nghymru gwnaethpwyd 193 cyfeiriad ar gyfer dioddefwyr posib lle'r anfonwyd y cyfeiriad wedyn at yr heddlu ar gyfer ystyriaethau cofnodi trosedd; roedd hyn yn gynnydd o 57% o'i gymharu â chyfansymiau 2016 ac roedd yn 3.7% o gyfanswm cyfeiriadau'r DU. Roedd y 193 cyfeiriad yn cynnwys 106 benyw (55%) ac 87 gwryw (45%). Cyfeiriwyd 109 (56%) unigolyn yn y categori camfanteisio ar oedolion ac 84 (44%) yn y categori camfanteisio ar blant.

**Tabl 6 – Y Math o Gamfanteisio Honedig ar Ddioddefwyr a allai fod Wedi Eu Masnachu a gyfeiriwyd at yr Heddlu yng Nghymru 2017**

| **Math O Ganfanteisio Honedig** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Oedolyn – Caethiwed Domestig | 8 | 2 | 10 |
| Oedolyn – Camfanteisio ar weithwyr | 8 | 43 | 51 |
| Oedolyn - Camfanteisio Rhywiol | 36 | 2 | 38 |
| Oedolyn - Camfanteisio Anhysbys | 8 | 2 | 10 |
| Oedolyn - Caethiwed Domestig | 0 | 1 | 1 |
| Plentyn - Camfanteisio ar weithwyr | 3 | 25 | 28 |
| Plentyn - Camfanteisio Rhywiol | 37 | 5 | 42 |
| Plentyn - Camfanteisio Anhysbys | 6 | 7 | 13 |
| **Cyfanswm** | **106** | **86** | **193** |

2.1.44 Yr hyn sy'n eglur yw bod menywod (boed wragedd neu ferched) yn fwy amlwg ym maes camfanteisio rhywiol gyda gwrywod (dynion neu fechgyn) yn fwy amlwg ym maes camfanteisio ar weithwyr.

2.1.45 Mae Partneriaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru wedi ei sefydlu. Ei bwriad yw gweithredu Cynllun Gweithredu Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Cymru Gyfan[28] sy'n nodi'r ymateb i nod Llywodraeth Cymru o *"wneud Cymru'n elyniaethus i gaethwasiaeth a darparu'r cymorth gorau posib i oroeswyr".*

2.1.46 Adroddodd y Bartneriaeth ar y ffigyrau isod gan nodi bod llawer mwy o ymwybyddiaeth a chyfeirio achosion posib o gaethwasiaeth fodern.

**Tabl 7 – Cyfeirio achosion posib o Gaethwasiaeth Fodern yng Ngogledd Cymru 2017**

| **Gogledd Cymru 2017** | | | |
|---|---|---|---|
| Plant (Barnardo's) | | Y Drefn Gyfeirio Genedlaethol (Yr Heddlu) | |
| Conwy | 5 | Q1 | 3 |
| Sir Ddinbych | 6 | Q2 | 3 |
| Sir Y Fflint | 6 | Q3 | 7 |
| Gwynedd | 2 | Q4 | 8 |
| Ynys Môn | 4 | | |
| Wrecsam | 14 | | |
| | **37** | | **21** |

2.1.47 Mae'r un adroddiad GSI â'r uchod hefyd yn nodi: "O'r 5,145 dioddefwr posib a adnabuwyd drwy'r Drefn Gyfeirio Genedlaethol (NRM) yn 2017, roedd 46% (2,352 achos) yn ddioddefwyr camfanteisio ar weithwyr." Mae llafur gorfodol i'w weld mewn amrywiaeth o sectorau, yn cynnwys pysgod cregyn a phecynnu bwyd, golchfeydd ceir, salonau ewinedd, gosod blociau ar gyfer palmentydd a

[28] *'The Wales Anti-Slavery Leadership Group Delivery Plan"* (Dolen)

llwybrau, adeiladu, amaethyddiaeth a phrosesu bwyd. Mae tystiolaeth bod nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern, neu elfennau ohoni, yn gyffredin yn y diwydiant adeiladu ar draws y byd. Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Siartredig yr Adeiladwyr (CIOB)[29] yn nodi:

2.1.48 *'Prin gaiff ochr dywyll (adeiladu)…y camfanteisio systematig ar filiynau o ymfudwyr bregus - ei chydnabod, hyd yn oed gan y cleientiaid a'r cwmnïau amlwladol sy'n comisiynu ein dinasoedd newydd sgleiniog.'*[30]

2.1.49 Er bod adroddiad y CIOB yn canolbwyntio ar ddatblygiad mawr yn yr Emiradau Arabaidd Unedig (UAE), mae'n amlygu peryglon caethwasiaeth fodern o fewn y diwydiant adeiladu ar draws y byd ac mewn prosiectau adeiladu mawr a bach.

2.1.50 Yn ogystal â'r bobl hynny y gellid eu masnachu i gaethwasiaeth fodern yn y diwydiant rhyw, golyga hyn efallai y bydd 'dadleoli' yn digwydd hefyd, lle mae pobl sy'n cael eu dal mewn caethwasiaeth fodern yn ymgymryd â swyddi a gyflawnwyd yn flaenorol gan aelodau'r gweithlu preswyl sy'n symud i brosiect Wylfa Newydd. Gallai hyn gynnwys gwaith yn y sector gofal cymdeithasol.

2.1.51 Yn 2017 roedd ystadegau NRM[31] yn nodi bod 34% (1,744 achos) o'r holl gyfeiriadau a wnaed yn 2017 yn achosion o gamfanteisio rhywiol. O'r achosion hyn, roedd 559 achos yn ymwneud â phlant. Adroddodd y GSI[32] bod "dioddefwyr tramor yn cael eu masnachu i'r DU, wedi eu hudo gan addewidion ffug o swyddi, a'u gorfodi i weithio yn y diwydiant rhyw. Mae plant Prydeinig a thramor yn cael eu paratoi i bwrpas rhyw gan gangiau o wrywod sy'n oedolion neu gangiau 'llinellau cyffuriau' ('county lines') a rhoddir cyffuriau iddynt cyn eu gorfodi i gamfanteisio rhywiol."

### Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Domestig a Thrais Rhywiol ar Ynys Môn

2.1.52 Mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Cymru a Gogledd Cymru gan Ystadegau Trosedd Cenedlaethol[33] i'w gweld yn Nhabl 8, isod.

**Tabl 8 – Digwyddiadau o Gamdriniaeth Ddomestig a Thrais yng Nghymru a Gogledd Cymru, 2016/17**

| Ardal | Nifer y troseddau camdriniaeth ddomestig | Canran o'r holl droseddau oedd yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig |
|---|---|---|
| **Cymru** | 27,972 | 14% |
| Gogledd Cymru | 5,763 | 14% |
| De Cymru | 14,348 | 14% |

[29] '*Modern slavery: The dark side of construction', Chartered Institute of Builders, 2015* (Dolen)
[30] Ibid, page 4
[31] NCA NRM statistics (Dolen)
[32] GSI, ibid
[33] 'Domestic abuse in England and Wales - Appendix tables' Available from: (Dolen)

2.1.53 Mae Camdriniaeth Ddomestig a thrais yn flaenoriaeth uchel i Gomisiynydd yr Heddlu a Thrais dros Ogledd Cymru. Yn ei Ddiweddariad ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd ym Medi 2017 fe ddywedodd:

2.1.54 *"Camdriniaeth Ddomestig yw'r risg pennaf sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru oherwydd yr effaith eang ar y dioddefwr (corfforol, seicolegol ac ariannol), y nifer o droseddau a gofnodir a'r duedd gynyddol".*[34]

2.1.55 Fodd bynnag, mae camdriniaeth ddomestig a thrais yn effeithio ar wasanaethau plant ac oedolion yn yr awdurdod lleol ac yn aml mae'n cynnwys gwaith achos cymhleth a phenodol sy'n mynnu lefel uchel iawn o sgil a gwybodaeth.[35]

**Prevent ar Ynys Môn**

2.1.56 Mae 'Prevent' yn rhan amlwg o strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth fuan drwy strategaethau sy'n lleihau'r tebygolrwydd o unigolion yn cefnogi ideoleg dreisgar neu eithafol neu ddod yn derfysgwyr.[36] Nid dal terfysgwyr yw bwriad Prevent, ond yn hytrach adnabod unigolion sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio, a'u cefnogi i newid cyfeiriad mewn ffordd fydd yn eu helpu.

2.1.57 Mae rhai grwpiau yn y boblogaeth sy'n fwy tebygol o fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

## 3.0 Effaith a Sail Tystiolaeth

### Tystiolaeth o lefydd eraill

3.1.1 Ychydig iawn o gymorth fu chwilio am dystiolaeth o lefydd eraill am effaith y math hwn o brosiect mewn perthynas â diogelu. Mae peth gwaith wedi ei wneud mewn perthynas â phrosiect diweddar i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Hinkley Point ond nid oedd yr asesiad a wnaethpwyd yno[37], na hwnnw yn Sizewell B yn Suffolk yn y 1990au[38], wedi nodi (nac wedi ystyried) materion mewn perthynas â diogelu. Un maes cysylltiedig a roddwyd sylw iddo yn astudiaeth Sizewell B oedd trosedd, lle nodwyd cynnydd arwyddocaol yn y nifer o bobl a arestiwyd, a briodolwyd i weithwyr adeiladu a gweddill y boblogaeth, er bod trwch yr arestiadau wedi eu priodoli i'r gweithlu mudol[39]. Un maes penodol o gynnydd oedd nifer yr achosion o yfed a gyrru.

### Effaith Poblogaeth

---

[34] *'Update for the Police and Crime Panel'* September 2017, Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru (Dolen)
[35] Gweler er enghraifft *'The role of social workers in responding effectively to domestic abuse'* (Dolen)
[36] '*Eithafiaeth a Radicaliaeth',* Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (Dolen)
[37] Chapter 8: Socio-economics (Dolen)
[38] '*Better monitoring for better impact management: the local socio-economic impacts of constructing Sizewell B nuclear power station*, Glasson, J, Impact Assessment and Project Appraisal, volume 23, number 3, September 2005, pages 215–226
[39] ibid, page 221

3.1.2 Mae adeiladu gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd yn brosiect adeiladu blaenllaw wedi ei gostio ar tua £12bn. O safbwynt diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i risg ar Ynys Môn, prif effaith yr adeiladu fydd presenoldeb gweithlu Wylfa Newydd. Mae'n bwysig cydnabod na fydd mwyafrif llethol gweithlu Prosiect Wylfa Newydd yn fygythiad o gwbl i'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, yn anochel gyda gweithlu o'r maint hwn, fe fydd elfen ohono a fydd yn peri risg i'r rheiny ar yr ynys sydd eisoes yn agored i risg. Fe allai presenoldeb y gweithlu hwnnw hefyd ddenu rhai sy'n fwy o risg i'r boblogaeth leol.

3.1.3 Ar y cyfan, fe fydd yr effaith yn un negyddol o ran y cynnydd yn y risg i boblogaeth Ynys Môn sy'n "agored i risg" ac o ran y cynnydd yn y galw am wasanaethau diogelu a gwasanaethau cysylltiedig.

3.1.4 Mae'r strategaeth rheoli gweithlu a gyflwynwyd fel rhan o'r Cais Cynllunio[40] yn nodi:

3.1.5 *""Mae Pŵer Niwclear Horizon ("Horizon") yn amcangyfrif y bydd angen tua 8,500 o weithwyr i adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd ("y Prosiect") yn ystod cyfnod adeiladu prysuraf. Er bod yr amcangyfrif canolog ar gyfer maint y gweithlu yn 8,500, mae'r strategaeth hon (yn gyson â'r Asesiad Effaith Amgylcheddol) yn seiliedig ar 9,000 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod prysuraf. Rhydd hyn le i ystyried mwy o weithwyr yn gyffredinol neu ymhlith y rheiny sy'n ceisio llety dros dro."*

3.1.6 Hefyd, fe fydd elfen o drosiant gweithlu yn ystod y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd, sy'n golygu y gallai hyd at 40,000 o unigolion gwahanol fod yn gweithio ar y prosiect ar un adeg neu'i gilydd[41].

3.1.7 Mae'r cynigion ar gyfer lletya'r gweithwyr hyn yn cynnwys:

a) Darpariaeth o hyd at 4,000 o welyau ar y Campws Safle (Llety Dros dro ar gyfer Gweithwyr a adeiladwyd yn bwrpasol yn Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (ADWN)).
b) Achos canolog sy'n ddibynnol ar ddefnyddio 3,000 o welyau mewn lletyau sy'n bodoli eisoes ar Ynys Môn a'r tir mawr.
c) Fe fydd 2,000 o weithwyr yn cael eu recriwtio o blith trigolion lleol ac ni fydd angen llety dros dro arnynt.

3.1.8 Er mwyn lleihau effaith hyn ar y gymuned leol maent yn cynnig:

**Rheoli Gweithlu**

3.1.9 Yn ei Strategaeth Rheoli Gweithlu[42] mae Horizon yn nodi y bydd nifer o egwyddorion yn ei God Ymddygiad sy'n berthnasol i ymddygiad y gweithlu, yn cael eu dilyn, yn cynnwys:

---

[40] *Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[413]*
[41] *Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[411]*
[42] *Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[413]*

a) Bydd yn ofynnol i'r holl bersonél ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad ar bob achlysur, boed hynny ar y safle neu oddi ar y safle yn y gymuned.
b) Bydd yn ofynnol i'r holl bersonél fynychu a chwblhau'r holl raglenni anwytho a hyfforddi cyn dechrau gweithio.
c) Rhaid i'r holl bersonél fod yn gwrtais ag aelodau'r cyhoedd a pharchu a chefnogi anghenion y cymunedau lle maent yn gweithio.
d) Rhaid i'r holl bersonél gofrestru â'r Gwasanaeth Rheoli Lletya'r Gweithlu. Fe ddylai'r holl bersonél nad ydynt yn byw gartref ddefnyddio'r Gwasanaeth Rheoli Lletya'r Gweithlu er mwyn canfod a sicrhau llety yn y lle cyntaf, cyn defnyddio gwasanaethau lletya eraill.
e) Yr holl bersonél i fod yn ymwybodol ac i gydymffurfio â'r polisïau mewn perthynas â'r defnydd o gyffuriau ac alcohol yn cynnwys:

   i. Gwaherddir gwneud, gwerthu neu ddefnyddio unrhyw gyffuriau anghyfreithlon a bydd yn arwaith at ddiswyddo ar unwaith.
   ii. Fe fydd yr holl bersonél yn yfed yn gyfrifol gan osgoi yfed gormod o alcohol ar y safle ac oddi ar y safle.
   iii. Fe fydd yr holl bersonél yn destun profion cyffuriau ac alcohol ar hap a chwiliadau cysylltiedig.
   iv. Bydd yn ofynnol i'r holl bersonél weithredu fel llysgenhadon i'r prosiect drwy eu hymddygiad a'u gweithredoedd (yn cynnwys eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol).
   v. Rhaid i'r holl bersonél drin eraill â pharch ac ymatal rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddol, treisgar neu wahaniaethol neu aflonyddu rhywiol gan ddeall na chaiff yr ymddygiadau hyn eu goddef ar unrhyw adeg.

3.1.10 Hefyd, mae gan, Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyfyngedig ddatganiad ar Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n egluro eu safbwynt fel a ganlyn:

a) Ein busnes
b) Ein polisïau, egwyddorion a safonau
c) Ein hymdriniaeth â sylw priodol
d) Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth
e) Mesur effeithiolrwydd ein dull

3.1.11 Mae Horizon wedi ymrwymo i wneud y defnydd mwyaf posib o'r gweithlu lleol, gyda photensial o hyd at 2,000 o swyddi'n mynd i bobl leol. Mae'n bosib y bydd rhai o'r rhain yn agored i bobl ag anableddau. Hefyd, fe allai'r prosiect greu pwysedd mewn man arall yn y farchnad swyddi leol, gan greu swyddi gwag mewn llefydd eraill allai gael eu llenwi gan bobl ag anableddau. Fe fydd yn bwysig sicrhau fod y bobl rheiny wedi eu diogelu yn y gweithle.

3.1.12 Mae tebygolrwydd hefyd y gallai presenoldeb y gweithlu ychwanegol, mudol arwain at gynnydd yn boblogaeth sy'n agored i risg, gan fod pobl ychwanegol yn cael eu denu i'r ynys a/neu'n ddarostyngedig i fasnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern.

3.1.13 Ar y cyfan, yng nghyd-destun Diogelu, fe fydd effaith y cynnydd yn y boblogaeth (gwrywaidd yn bennaf) yn un **negyddol**, gan gyflwyno risgiau a pheryglon pellach

i'r boblogaeth sy'n agored i risg, boed yn blant, pobl ifanc neu'n oedolion. Cyflwynir isod y manylion mewn perthynas â hyn a'r cynigion ar gyfer lliniaru gan CSYM.

## Cynnydd Poblogaeth Ddibynnol

3.1.14 Er nad oes disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gweithlu ddod â dibynyddion gyda hwy yn ystod y cyfnod adeiladu, mae Horizon wedi nodi y bydd oddeutu 285 partner a 220 dibynnydd yn dod gydag aelodau'r gweithlu (plant, partneriaid a pherthnasau eraill)[43]. Fodd bynnag, mae hyn gyfystyr â llai na 3% o'r gweithlu yn dod â dibynyddion ar unrhyw adeg ac mewn gwirionedd fe allai'r ffigurau fod yn llawer uwch, ac fe fydd yn bwysig gweld sut cyfrifodd Horizon y ffigwr hwn ac i fonitro (os yn bosib) y nifer o ddibynyddion a ddaw gyda'r gweithlu, a'r pwysau fyddant yn ei roi ar wasanaethau gofal cymdeithasol lleol. Os bydd 3% o'r gweithlu dros dro hwn yn dod â phlant gyda nhw (neu'n penderfynu aros ac yna dod â theuluoedd fe fyddai'r nifer hwnnw'n dyblu, o leiaf.

3.1.15 Er y gall y rhan fwyaf o'r dibynyddion hynny fod yn blant, efallai y bydd pobl hŷn ac oedolion ag anableddau yn dod gydag aelodau'r gweithlu.

3.1.16 Nid yw amcangyfrif lefel yr effaith ar wasanaethau yn glir o gwbl- ond mae'n amlwg bod y potensial yn bodoli.

3.1.17 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM yn disgwyl effaith negyddol mewn perthynas â'r galw am wasanaethau diogelu a gwasanaethau gofal cymdeithasol cysylltiedig o ganlyniad i ddyfodiad y boblogaeth ddibynnol.

## Effaith Cynnydd Poblogaeth – Cefnogi Plant a Phobl ifanc a'u Teuluoedd

3.1.18 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM yn disgwyl effaith negyddol mewn perthynas â'r galw am wasanaethau.

3.1.19 Mae darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd angen diogelu a / neu ofal a chymorth yn rhan o gyfrifoldebau statudol craidd yr awdurdod lleol.

3.1.20 Fe fydd nifer o blant a phobl ifanc yn dod gyda staff Horizon sy'n symud i Ynys Môn, boed am gyfnodau tymor byr neu dymor hir. Mae amcangyfrifon yn amrywio parthed faint, ond mae ffigwr Horizon i weld yn gymharol isel, o ystyried maint y boblogaeth.

3.1.21 Mae amcangyfrifon cyfredol ar gyfer y cynnydd o 220 mewn cartrefi teuluol o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd yn gymharol isel a gallent fod yn danamcangyfrif. Nid yw'r ffigyrau ar gyfer y niferoedd o blant allai ddod ar gael hyd yma, ond gallai fod cyn uched â 507 (yn ôl dadansoddiad a wnaed gan CSYM).

3.1.22 Yn 2016, roedd y nifer o blant oedd angen gofal a chefnogaeth arnynt ar Ynys Môn yn 260 am bob 10,000 o'r boblogaeth o dan 18.**[44]** Felly mae sail tystiolaeth CSYM yn nodi y gallai ychwanegu 507 o blant arwain at gynnydd o 13 o blant a fyddai angen gofal a chymorth arnynt (yn cynnwys plant ag anableddau).

[43] Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[088]
[44] Ystadegau Cymru, *'Children in need per 10,000 population by local authority and year'*: (Dolen)

3.1.23 Fe all gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau, yn ogystal â'r rhai ar gyfer pobl hŷn fod yn hynod o ddrud. Fodd bynnag, o dybio y byddai 13 plentyn ychwanegol, fe allai'r effaith ar wasanaethau plant fod yn arwyddocaol.

3.1.24 Fe fyddai CSYM yn ceisio lliniaru mewn dwy ffordd:

a) Monitro parhaus o'r ceisiadau a wneir am asesiad a gofal a gwasanaethau cefnogi gan unigolion hŷn ac anabl yn enwedig mewn perthynas â theuluoedd newydd yn cyrraedd yn ystod y cyfnod adeiladu neu gyfnod gweithredu o ganlyniad i'r datblygiad.
b) Fformiwla gytunedig ar gyfer cyllido gweithgarwch ychwanegol ar (o gymryd y bydd yn digwydd) effaith y cynnydd yn y boblogaeth o ddibynyddion ar wasanaethau gofal a chefnogi ar gyfer plant (yn cynnwys plant anabl), oedolion anabl a phobl hŷn.

3.1.25 Er mwyn bod yn effeithiol, fe fyddai'n rhaid i adnoddau ychwanegol fod mewn lle ac yn weithredol cyn i'r gweithwyr a'r dibynyddion gyrraedd.

3.1.26 Efallai y byddai Horizon yn dymuno ystyried pa ddarpariaeth, cyngor a chefnogaeth mae'n ei ddarparu i'r gweithwyr hynny sy'n ystyried dod ag aelodau o'r teulu sy'n ddibynyddion, yn cynnwys plant, â nhw.

3.1.27 Caiff monitro ei gydnabod fel elfen allweddol o ddarparu gwasanaeth a chynllunio gwasanaeth diogelu ac mae'n hanfodol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau priodol a gweithredol mewn lle.

**Effaith cynnydd Poblogaeth – Diogelu plant a phobl ifanc**

3.1.28 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM yn rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau.

3.1.29 Yn ogystal â'r anghenion gofal a chefnogaeth ychwanegol, gall materion diogelu godi hefyd.

3.1.30 Fel arfer, mae cam-drin plant a phobl ifanc wedi digwydd yng nghyd-destun y cartref a/neu deuluoedd estynedig gyda phlant yn agored i risg gan eu prif ofalwyr neu eraill sy'n agos. Gall un agwedd o hyn ddigwydd drwy ffurfio cartrefi newydd gyda dynion (yn bennaf) ag ymddygiad rheibus yn symud i fyw â benywod lle bo plant yn y cartref eisoes.

3.1.31 Dengys ffigyrau o 2015/16[45] bod y nifer o blant ar y gofrestr amddiffyn plant am bob 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn 64/10,000. Ar sail hyn, gallai 500 o blant ychwanegol (fel soniwyd uchod) ar Ynys Môn ychwanegu 3-5 phlentyn arall at y gofrestr.

3.1.32 Yn ychwanegol i'r plant sy'n dod i'r sir, mae posibilrwydd y bydd rhai pobl yn y gweithlu mudol yn creu perthnasoedd ac o bosib gartrefi newydd yn eu cyfnod ar Ynys Môn. Er nad yw hyn yn ei hun yn achos o bryder fe allai natur symudol

[45] Cofrestr Amddiffyn Plant CSYM (Dolen)

a thros dro'r gweithlu olygu bod elfen o ansefydlogrwydd yn y perthnasoedd hyn allai fod yn broblemus. Fe allai trefniadau lletya diberthynas (fel llety mewn tŷ preifat) ddod â gweithwyr i gyswllt agos â phlant ifanc. Er y byddai'r mwyafrif llethol o achosion o'r fath yn debygol o fod yn ddiniwed, mae peth risg yn bodoli.

3.1.33 Hefyd, nodwyd cyswllt rhwng difreintedd a materion diogelu. Mae sefydliad Joseph Rowntree[46] wedi darganfod bod '*Cyswllt cryf rhwng amgylchiadau economaidd-cymdeithasol teuluoedd a'r tebygolrwydd y bydd eu plant yn profi camdriniaeth plant ac esgeulustod.'* Mae'n bosib, felly, y gallai dyfodiad y swyddi (lleol) a ddisgwylir fel rhan o'r prosiect, leihau lefelau tlodi ac fe allai hyn gael effaith gadarnhaol ar lefelau camdriniaeth plant.

3.1.34 Fodd bynnag, mae'r pwyslais yn yr adroddiad hwnnw ar ganlyniadau tymor hwy tlodi a difreintedd ac ni fydd effeithiau mwy tymor byr y rolau dros dro o adeiladu a chynnal diffoddiadau ym mhrosiect Wylfa Newydd yn cael fawr o effaith ar hynny.

3.1.35 Fe fydd ar Wasanaethau Plant angen adnoddau ychwanegol yn ystod yr holl gyfnod adeiladu er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd ystadegol yn y cyfeiriadau amddiffyn plant a achosir gan y cynnydd yn y boblogaeth. Er bod yn niferoedd hyn yn ymddangos yn gymharol fychan, gall y gwaith angenrheidiol ym mhob achos fod yn arwyddocaol – yn fwy felly os bydd yr awdurdod lleol yn dod i ofalu am y plentyn.

3.1.36 Fe fyddai ar Wasanaethau Diogelu Plant angen adnoddau ychwanegol yn ystod yr holl gyfnod adeiladu. Rydym yn tybio y byddai'r swyddi ychwanegol hyn yn angenrheidiol o safbwynt y gwasanaethau Diogelu.

3.1.37 Yn y tymor hwy, mae plant sydd ag angen eu hamddiffyn arnynt, yn aml yn parhau i fod ag angen gofal a chefnogaeth arnynt. Unwaith eto, er bod y niferoedd yn ymddangos yn gymharol isel, gall y lefel o gefnogaeth sy'n angenrheidiol fod yn uchel ac yn drwm ar adnoddau.

**Effaith cynnydd poblogaeth – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

3.1.38 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

3.1.39 Mae achosion trefnedig diweddar o baratoi plant i bwrpas rhyw wedi canolbwyntio ar grwpiau ethnig a galwedigaethau penodol fel gyrwyr tacsi mewn ardaloedd trefol (adroddwyd y BBC ar enghraifft ddiweddar yn Newcastle)[47].

3.1.40 Er y cydnabyddir y bydd amgylchiadau gweithlu Wylfa Newydd yn wahanol iawn a heb yr un cyfleoedd â swyddi fel gyrru tacsi, gall camfanteisio rhywiol fodoli

[46] 'The relationship between poverty, child abuse and neglect: an evidence review', Joseph Rowntree Foundation, 2016. (Dolen)
[47] Operation Sanctuary: Dozens of taxi drivers suspended: (Dolen)

ymysg amrywiaeth o wahanol grwpiau[48]. Bydd y gweithlu sy'n mewnfudo tua 7,000 ar ei uchaf, yn ddynion yn bennaf gyda throsiant arwyddocaol dros amser.

3.1.41 Mae gwybodaeth o'r Arolwg Cenedlaethol o Agweddau Rhywiol a Bywyd[49] yn nodi bod 11.0% o ddynion wedi talu am ryw ar ryw adeg. Roedd 3.6% (95% CI 3.1% i 4.2%) o ddynion wedi talu am ryw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

3.1.42 Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i bwyllgor y Swyddfa Gartref ar buteindra yn cynnig sawl ffordd y gall pobl gael eu tynnu i mewn i buteindra, yn enwedig pobl ifanc sy'n agored i risg a'r rheiny sydd wedi eu masnachu.

3.1.43 O gofio amlygrwydd tebygol dynion yng ngweithlu Wylfa Newydd, os bydd y gyfran honno o ddynion o weithlu Wylfa Newydd yn talu am ryw ar unrhyw adeg, fe fydd y rhif hwnnw dros 250 pan fydd y gweithlu ar ei fwyaf, a gallai fod yn fwy o ystyried mai dim ond nifer fechan o deuluoedd a ddisgwylir i ddod gyda'r gweithlu. O dderbyn y niferoedd hyn, mae'n debygol y bydd y fasnach ryw leol yn ehangu.

3.1.44 Fe allai rhai geisio ymgysylltu a chamfanteisio ar enethod lleol a merched ifanc bregus. Yn ychwanegol, fe allai gweithlu mor fawr, sy'n wrywaidd yn bennaf, ddenu sylw'r rhai sy'n trefnu puteindra ac sydd, yn eu tro'n camfanteisio ar enethod (a bechgyn) ifanc a merched bregus a'u paratoi i bwrpas rhyw. Nid yw mesur tebygolrwydd y risgiau hyn na'u canlyniadau yn bosib ar hyn o bryd ond o dderbyn maint y gweithlu arfaethedig mae'n rhaid iddo fod yn ystyriaeth. Hefyd, mae'n bosib y gallai gweithgarwch o'r fath ymledu i awdurdod cyfagos Gwynedd o leiaf.

3.1.45 Daw'r dadansoddiad mwyaf manwl o achosion camfanteisio ar blant yn rhywiol gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (CECSE) ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain.[50] Mae'r wybodaeth wedi ei seilio'n bennaf ar Loegr ond mae'n cynnwys data o Gymru lle mae hwnnw ar gael. Maent hefyd yn nodi bod y cyfraddau uchaf wedi digwydd lle bu achosion amlwg yn ddiweddar ac mewn trefi glan môr.

3.1.46 Maent yn dangos amrywiad arwyddocaol yn y nifer o blant a aseswyd gan wahanol awdurdodau fel rhai sy'n agored i risg o gamfanteisio rhywiol am bob 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed. Ar gyfer rhai awdurdodau lleol mae mor isel â 0-4 am bob 10,000 o'r boblogaeth, gyda'r cofnod uchaf yn 30+ (Roedd dros hanner yn nodi bod y cyfraddau rhwng 10 ac 19 am bob 10,00 o'r boblogaeth

---

[48] Cyfeiriodd Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Gangiau a Grwpiau at 'Grwpiau' fel *'…dau neu fwy o bobl o unrhyw oed, â chyswllt trwy gysylltiadau neu rwydweithiau ffurfiol neu anffurfiol, yn cynnwys, ond nid y gyfyngedig i, ffrindiau.'*

[49] Adroddwyd yn '*The prevalence of, and factors associated with, paying for sex among men resident in Britain: findings from the third National Survey of Sexual Attitudes and Lifestyles (Natsal-3)'*, Jones, GK et al, BMJ Journals, 2014 (Dolen)

[50] '*Measuring the scale and changing nature of child sexual abuse and child sexual exploitation Scoping report', Professor Liz Kelly and Kairika Karsna Gorffennaf 2017,* Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain (Dolen)

dan 18). (Mae cyfradd gyfredol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar Ynys Môn yn gymharol isel).

3.1.47 Fe wnaethant hefyd ddarganfod bod y ddwy drosedd sydd â'r cyswllt mwyaf eglur â chamfanteisio'n rhywiol ar blant – camwdrin plant drwy gamfanteisio rhywiol a pharatoi plant ar gyfer rhyw – i'w cyfrif am 3.0% o'r achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Lloegr a 2.0% o achosion yng Nghymru. Yn 2015/16 nodwyd bod 3,241 o droseddau yn erbyn plant wedi eu cofnodi gan yr Heddlu yng Nghymru.

3.1.48 Un ffactor amlwg yng nghyd-destun amlygrwydd camfanteisio'n rhywiol ar blant yw maint y boblogaeth oedolion. Mae cyfuno gwybodaeth CECSE â'r wybodaeth gan Ystadegau Cymru,[51] yn rhoi ffigwr cyfartalog o ychydig dros 12 achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a gofnodwyd yn flynyddol yng Nghymru ar gyfer pob 10,000 o'r boblogaeth oedolion. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth oedolion gwrywaidd yn ystod cyfnod adeiladu prosiect Wylfa Newydd (gweler isod) yn debygol o fod yn 7,000 ar unrhyw adeg. Mae cyfrifiad bras, sy'n seiliedig ar y ffigyrau uchod ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a phoblogaeth, yn awgrymu y gallai hyn arwain at 15-20 achos pellach o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn flynyddol ar Ynys Môn.

3.1.49 Ar wahân i rai nodweddion o'u cymeriad, cymharol ychydig a wyddom o hyd am y rhai sy'n cyflawni camfanteisio'n rhywiol ar blant[52]. Fodd bynnag, mae adroddiad CECSE yn nodi mai gwrywod sydd yn bennaf gyfrifol am droseddau cam-drin plant yn rhywiol.

3.1.50 Mae angen ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru i sicrhau bod y strategaethau a'r trefniadau sydd mewn lle ar Ynys Môn (a Gwynedd hefyd) yn addas i bwrpas ac wedi eu cyllido'n ddigonol ar gyfer y cynnydd posib mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae gweithredu rhag blaen yn faes allweddol i ganolbwyntio arno efallai, gyda phwyslais ar annog a chefnogi genethod a merched ifanc, a allai fod yn agored i risg, i beidio cael eu denu i fod yn rhan o berthnasoedd a gweithgarwch sy'n camfanteisio.

3.1.51 Gall y goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â chefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol fod yn sylweddol iawn, gan ofyn am staff mewnol a chefnogaeth gan sefydliadau allanol, sydd angen eu cyllido gan yr awdurdod lleol. Mae cost gofal preswyl arbenigol yn neilltuol o uchel. Os bydd cynnydd arwyddocaol yn yr achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel yr amlinellir uchod, yna fe all fod angen gofal preswyl arbenigol ar nifer fechan o'r dioddefwyr, er bod lleoliadau o'r fath yn arbennig o ddrud.

3.1.52 Bydd gofyn hefyd am gynhwysedd ychwanegol mewn perthynas â gwaith ieuenctid a Swyddogion Lles Addysg.

3.1.53 Fe ddylai cod ymddygiad fynd i'r afael yn benodol â'r materion hyn, gan atgoffa'r gweithlu o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion tuag at y camfanteisio posib ar blant a phobl ifanc a'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â'u gweithgarwch rhywiol â

[51] Data Poblogaeth Ystadegau Cymru: (Dolen)
[52] 'Child sexual exploitation: Who is affected', NSPCC: (Dolen)

nhw. Bydd angen ar Horizon i ystyried hygyrchedd pornograffi ar y rhyngrwyd yn ei safleoedd lletya ac i gymryd camau i sicrhau na fydd deunydd annerbyniol ac anghyfreithlon ar gael drwy ei rwydweithiau mynediad i'r rhyngrwyd.

3.1.54 Mae Swyddfa Ymchwiliad y Comisiynydd Plant i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Gangiau a Grwpiau yn nodi 9 sail hanfodol ar gyfer arfer da yn y maes hwn:

a) Pawb yn wyliadwrus.
b) Adnabod yr arwyddion o berygl.
c) Gweithio cyd-gysylltiedig.
d) Gweithredu rhag blaen.
e) Craffu a Throsolwg.
f) Canolbwyntio ar y Plentyn.
g) Ennill hyder plentyn.
h) Arweinyddiaeth.
i) Cynllunio Strategol.

3.1.55 Daeth y 9 sail hanfodol ar gyfer arfer da i'r amlwg yn dilyn gwaith gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant a chawsant eu datblygu drwy arolwg eang o arfer cyfredol a'u heffeithiolrwydd. Er bod canllaw Cymru gyfan ar gamfantiesio'n rhywiol ar blant yn cael ei adolygu, yng ngoleuni prosiect Wylfa Newydd efallai y byddai Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r grŵp darparu lleol yn awyddus i adolygu eu trefniadau cyfredol eu hunain ac edrych ar sut y gallent gryfhau eu gwasanaethau a chefnogi pobl ifanc lleol a'r rhai sy'n dod i'r sir er mwyn osgoi twf mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant.

3.1.56 Mae ystod o adnoddau ar gael a allai fod o gymorth wrth gryfhau'r ymateb lleol i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Un adnodd defnyddiol yw Pecyn Adnoddau Barnardo's ar Gamfanteisio'n Rhywiol ac Iechyd Rhywiol,[53] sy'n ceisio:

a) Hwyluso codi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Iechyd Rhywiol mewn nifer o leoliadau.
b) Arfogi hwyluswyr i allu ymgysylltu'n effeithiol yn y maes hwn â phobl ifanc 13 oed a throsodd. Mae'r ffilmiau byrion sy'n rhan ohono wedi eu dylunio er mwyn galluogi pobl ifanc i drafod y mater ac i'w hamddiffyn rhag datgeliad personol mewn amgylchedd dysgu diogel.

3.1.57 Mae '*Seen and heard.org.'*[54] hefyd yn cynhyrchu a nodi ystod o adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn cynnwys canfyddiadau ymchwil a chanllawiau ymarferol.

[53] *'The Real Story'* Barnardos: (Dolen)
[54] Child sexual abuse and child sexual exploitation (Dolen)

**Effaith Cynnydd Poblogaeth – Diogelu Pobl Hŷn**

3.1.58 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

3.1.59 Mae Horizon a CSYM yn rhagweld[55] y bydd hyd at 740 o weithwyr yn canfod llety drwy'r defnydd o 'letyau cudd' a ddisgrifir fel *'fflatiau o fewn tai ac ystafelloedd sbâr nad ydynt yn cael eu rhentu'n gyfredol.*

3.1.60 Ar yr un pryd mae tystiolaeth gref fod llawer o'r math hwn o lety ar gael mewn tai sy'n eiddo i bobl hŷn (hyd at hanner mewn un astudiaeth).[56] Er y bydd llawer o bobl hŷn yn gwbl alluog o allu rhentu rhan o'u heiddo a rheoli'r trefniant hwnnw'n effeithiol, fe fydd rhai a fydd yn ei chael yn anodd ac, eraill o bosib lle bydd y trefniant yn dod yn fater diogelu oherwydd cam-drin ariannol a/neu ffyrdd eraill o gam-drin.

3.1.61 Fe ellir lliniaru'r niwed posib allai ddigwydd i bobl hŷn wrth i Horizon sicrhau bod cymaint o drefniadau lletya â phosib yn cael eu gwneud drwy eu gwasanaeth lletya ac wrth i Horizon gydweithio gyda CSYM i sicrhau bod diogelu yn elfen allweddol o waith y gwasanaeth cydweddu llety ac y cymerir pob gofal i sicrhau bod darpar ddeiliaid y tai yn gallu rheoli lleoliad ac y caiff lleoliadau eu hadolygu o bryd i'w gilydd gyda'r bwriad o sicrhau lles y perchnogion tai.

3.1.62 Mae llawer o gamau y gellir eu cymryd gan ddarpar landlord sy'n 'byw yn yr eiddo' er mwyn sicrhau bod y trefniant gosod yn un boddhaol (er enghraifft gweler y camau a amlinellir ar wefan lodgdersite.com.[57]). Gall gwasanaeth Lletya Horizon weithio gyda darpar landlordiaid sy'n 'byw yn yr eiddo' er mwyn eu helpu i ddeall eu hawliau nhw a hawliau eu tenantiaid ac i sicrhau y cymerir y camau priodol i wirio addasrwydd y trefniadau. Bydd angen adnoddau ychwanegol ar y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cefnogi unigolion gaiff eu heffeithio.

3.1.63 Unwaith eto, mae hwn yn faes gwaith sy'n newydd ac anghyfarwydd. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol glir i ddiogelu pobl hŷn sy'n agored i risg. Mae *'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru'*[58] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar yn nodi pwysigrwydd cydnabod bod ymddygiad sy'n rheoli drwy orfodaeth yn rhan o gam-drin domestig pobl hŷn a bod rhaid mynd i'r afael â'r mater. Mae hefyd yn nodi, bod problemau'n codi o bryd i'w gilydd oherwydd bod aelodau o'r cartref yn wynebu problemau sydd tu hwnt i'w gallu. Fodd bynnag, nid trais domestig yn unig yw camdriniaeth oedolion (camdriniaeth ariannol er enghraifft) ac mae ymateb yn effeithiol i bob math o gamdriniaeth yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid. Ar yr un pryd, mae atal amgylchiadau o'r fath rhag codi drwy reoli gosodiadau yn amlwg yn elfen bwysig o'r ymateb cyffredinol.

[55] *'Prosiect Wylfa Newydd - 8.4 Strategaeth Lletya Gweithlu'*, (Dolen)
[56] *'Older people's housing: choice, quality of life, and under-occupation',* Joseph Rowntree Foundation, 2012, (Dolen)
[57] How to Avoid a Terrible Lodger (Dolen)
[58] Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru (Dolen)

**Effaith Cynnydd Poblogaeth – Diogelu Pobl Hŷn sydd mewn perygl**

3.1.64 O’r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

3.1.65 Mae llawer o’r risgiau a nodir uchod ar gyfer plant a phobl ifanc yn berthnasol i bobl hŷn sy’n agored i risg hefyd. Fe fydd creu perthnasoedd a/neu gartrefi newydd (drwy osod tai) yn dod ag oedolion allai fod yn agored i risg (boed yn bobl ieuengach sy’n anabl neu bobl hŷn) i gyswllt agos ag elfennau o weithlu Wylfa Newydd. Unwaith eto, i lawer fe fydd hyn yn brofiad cadarnhaol, ond i rai fe allai eu gwneud yn fwy bregus a chynyddu’r posibilrwydd o gam drin a/neu gamfanteisio. Gall pobl ag anableddau hefyd ddioddef troseddau casineb, ond yn aml maent yn fwy tebygol o ddioddef troseddau gaiff eu cyflawni gan ‘ffrindiau’, sef pobl sydd wedi dod yn gyfeillgar â hwy ac yna wedi camfanteisio ar y berthynas. Fel y nodwyd uchod, nid yw llawer o bobl ag anawsterau dysgu ysgafn neu gymedrol yn hysbys i ofal cymdeithasol oedolion, ond gallent ddod i fod angen cefnogaeth arnynt o ganlyniad i’w profiadau.

3.1.66 Enghraifft o amgylchiadau o gam-drin posib fyddai lle mae person hŷn yn darparu llety i aelod o’r gweithlu a’i fod yn cael ei fygwth a/neu ei gam-drin yn ariannol. Fe allai oedolyn ieuengach ag anableddau ddioddef camdriniaeth mewn sawl ffordd, yn cynnwys cael ei orfodi i roi llety i rywun neu ddioddef camdriniaeth neu gamfanteisio corfforol, ariannol neu rywiol. Fe allent gael eu denu i’r fasnach cyffuriau anghyfreithlon. Gallai merched ifanc yn benodol ddioddef camfanteisio rhywiol, naill ai gan unigolion neu fel rhan o gyfundrefn.

3.1.67 Yn yr un modd â phlant a phobl ifanc, fe allai gangiau cyffuriau anghyfreithlon recriwtio oedolion ag anabledd dysgu sy’n byw’n annibynnol yn y gymuned a gallent feddiannu’r eiddo fel canolfan ar gyfer gwerthu cyffuriau (arfer gaiff ei alw’n *‘cuckoo-ing’*). Mae posibilrwydd y bydd merched ifanc yn enwedig yn dioddef camfanteisio rhywiol fel rhan o’r fasnach ryw.

3.1.68 Yn yr un modd â rhai pobl hŷn fe allent wynebu risg pe baent yn gosod rhan o’u heiddo i aelod o weithlu Wylfa Newydd.

3.1.69 Mewn perthynas â gosodiadau, unwaith eto, fe allai Horizon liniaru’r niwed posib yma drwy sicrhau bod cymaint o drefniadau lletya â phosib yn cael eu gwneud drwy eu gwasanaeth gosod eiddo a chydweithio gyda CSYM i sicrhau bod diogelu yn elfen allweddol o waith y gwasanaeth cydweddu llety ac y cymerir pob gofal i sicrhau bod darpar ddeiliaid y tai yn gallu rheoli lleoliad ac y caiff lleoliadau eu hadolygu o bryd i’w gilydd gyda’r bwriad o sicrhau lles y perchnogion tai.

3.1.70 Mewn perthynas â’r fasnach gyffuriau anghyfreithlon a’r fasnach ryw, fe fydd yn bwysig bod gwasanaethau oedolion yn sicrhau bod oedolion ag anableddau dysgu sy’n byw’n annibynnol yn derbyn mwy o gyngor a chefnogaeth ynghyd â chyfleoedd rheolaidd i drafod eu hamgylchiadau cyfredol ac unrhyw newidiadau yn eu trefniadau byw neu weithgareddau eraill gyda’r gwasanaethau. Hefyd,

bydd angen ar y Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod trefniadau cydweithio effeithiol mewn lle ar gyfer gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill.

3.1.71 Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cefnogi'r unigolion yr effeithir arnynt a'r rheiny allai fod mewn perygl. Gellid cyflogi Cydlynydd Ardal Leol gyda ffocws ar addysgu cymunedau. Y ffordd orau i'r Awdurdod Lleol gomisiynu gwasanaeth o'r fath fyddai drwy sefydliad trydydd sector lleol ar gyfer yr holl gyfnod adeiladu.

3.1.72 Fel gyda phobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd a chyfrifoldeb clir i weithio er mwyn osgoi sefyllfaoedd o gam-drin ac ymateb iddynt pan fyddant yn digwydd. O ran gosodiadau, eto mae'n amlwg bod ymagwedd ataliol yn well. Yn yr un modd, mae angen i'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol wrth ddiogelu pobl ag anableddau dysgu yn y gymuned, sef yr hyn a ddynodir fel risg uwch.

**Effaith Cynnydd Poblogaeth – Defnydd o Gyffuriau Anghyfreithlon**

3.1.73 Er gwaethaf y polisïau 'dim goddefgarwch' a gynigir gan Horizon, mae'n debyg y gallai dyfodiad y gweithwyr i Ynys Môn arwain at dwf yn y farchnad leol mewn cyffuriau anghyfreithlon a chynnydd mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â chyffuriau. Gyda thwf tebygol o 17% yn y boblogaeth oed gweithio pan fydd y prosiect ar waith, ac er gwaethaf y polisïau AD a gynigir gan Horizon, fe fydd hyn yn fygythiad cynyddol i bobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn y sir ar adeg pan fo peryglon eisoes yn codi o ehangu'r fasnach gyffuriau i ardaloedd gwledig.

3.1.74 Mae yna ymwybyddiaeth gynyddol o'r dull 'Llinellau Cyffuriau' gaiff ei fabwysiadu gan sawl gang gyffuriau drefol er mwyn ehangu eu gweithgarwch i ardaloedd mwy gwledig. Mae Cymdeithas y Plant yn disgrifio'r gweithgarwch fel a ganlyn:

3.1.75 *"Mae gangiau yn targedu plant bregus yn fwriadol – y rhai sy'n ddigartref, yn byw mewn cartrefi gofal neu wedi eu caethiwo gan dlodi. Mae'r plant hyn yn anniogel, yn ddi-gariad neu'n methu ymdopi, ac mae'r gangiau yn manteisio ar hyn.*

3.1.76 *Mae'r gangiau hyn yn paratoi, bygwth neu dwyllo'r plant i fasnachu eu cyffuriau drostynt. Fe allent fygwth person ifanc yn gorfforol, neu fygwth aelodau teulu'r person ifanc. Gallai'r gangiau hefyd gynnig rhywbeth i'r person ifanc yn gyfnewid am ei gydweithrediad – gallai fod yn arian, bwyd, alcohol, dillad a gemwaith, neu statws uwch – ond, fel arfer, caiff rhoi'r anrhegion hyn ei drin fel bod y plentyn yn teimlo eu bod yn ddyledus i'r person sy'n camfanteisio.*

3.1.77 *Fodd bynnag, cânt eu dal yn y llinellau cyffuriau ac mae'r bobl ifanc yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond parhau i wneud beth mae'r gangiau ei eisiau.*[59]*"*

[59] *'What is County Lines?'* – Gwefan Cymdeithas y Plant (*Children's Society*): (Dolen)

3.1.78 Er mai'r Heddlu yw'r brif asiantaeth wrth fynd ati i atal y twf amlwg mewn gweithgarwch troseddol, mae gan yr awdurdod lleol rôl benodol wrth adnabod a chefnogi oedolion a phobl ifanc mewn perygl (yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael y system gofal) i osgoi dod yn rhan o'r gweithgarwch hwn. Hefyd, mae'r Heddlu wedi adnabod rôl allweddol i asiantaethau partner wrth:

a) Nodi twf 'Llinellau Cyffuriau' a'r goblygiadau ar gyfer Gogledd Cymru.
b) Ystyried sut byddant yn briffio'u staff ar y mater a'r arwyddion y dylent fod yn ymwybodol ohonynt.
c) Cydnabod ehangu'r dirwedd diogelu sydd wedi tyfu tu hwnt i'r agenda diogelu draddodiadol.
d) Datblygu strategaethau am 'llinellau cyffuriau' o amgylch ymwybyddiaeth staff, adnabod yr arwyddion, rhannu gwybodaeth a darparu gwasanaethu hygyrch ar gyfer y rhai gaiff eu heffeithio.

3.1.79 Mae'n debygol y bydd angen ar y gwasanaethau lleol i gryfhau eu cydweithredu ag asiantaethau eraill a gallu eu staff eu hunain i adnabod ac ymateb i'r materion hyn. Bydd arnynt hefyd angen gwella eu gallu i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl ac oedolion yn gyffredinol ac i'w dargyfeirio'n effeithiol oddi wrth y gweithgareddau hyn. Fe allai ar wasanaethau Awdurdod lleol fod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi unigolion gaiff eu heffeithio, ond nid yw ei hyd a'i led yn glir eto. Bydd rhaid monitro'r maes hwn yn agos mewn cydweithrediad â'r Heddlu er mwyn canfod yr effaith yn llawn yn ystod y cyfnod adeiladu. Gellid adnabod anghenion adnoddau pellach wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

3.1.80 Bydd gan Horizon rôl sylweddol wrth gefnogi ei weithlu i beidio ag ymwneud â'r fasnach cyffuriau anghyfreithlon. Fe fyddem yn disgwyl gweld bod y cod ymddygiad staff yn cynnwys mesurau trwyadl er mwyn sicrhau y cedwir y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon gan y gweithlu at yr isafswm.

3.1.81 Mae dyfodiad 'Llinellau Cyffuriau' yn ffenomen gymharol newydd ac mae sut i ymateb yn effeithiol iddynt yn parhau yn feysydd sy'n cael eu harchwilio a'u datblygu. Mae'r Heddlu'n glir mewn perthynas â mynd i'r afael â'r broblem ac maent wedi rhoi blaenoriaeth uchel iddi, ac i'r angen am waith partneriaeth effeithiol er mwyn gwneud hynny. Mae'r Heddlu wedi amlygu gwybodaeth a sgiliau staff yn y gwasanaethau plant yn ogystal â'r angen i ddatblygu strategaethau lleol.

3.1.82 Hefyd, mae tystiolaeth gynyddol o bobl ifanc ac oedolion a allent fod mewn perygl, yn cael eu tynnu i mewn i'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon mewn ardaloedd mwy gwledig[60]. Cyfyd hyn nifer o oblygiadau diogelu yn cynnwys plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae oedolion yn cam-drin sylweddau.

**Effaith Cynnydd Poblogaeth – Masnachu Pobl a/neu Gaethwasiaeth Fodern**

3.1.83 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

[60] County Lines Violence, Exploitation & Drug Supply 2017, National Briefing Report:(Dolen)

3.1.84 Mae Caergybi, un o brif borthladdoedd y DU, yn rhan o Ynys Môn ac o'r herwydd mae eisoes yn bwynt mynediad i bobl gaiff eu masnachu'n anghyfreithlon[61]. Pan maent wedi cyrraedd y DU gallent fod yn hynod o agored i gamfanteisio pellach, yn enwedig yn y fasnach ryw neu'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon. Fe allai'r cynnydd yn y boblogaeth (wrywaidd) o achos Prosiect Wylfa Newydd gynyddu'r masnachu yn y meysydd hyn. Hefyd, mae risg (er yn un llai mae'n debyg) y caiff pobl eu gorfodi i gaethwasiaeth fodern o fewn y diwydiant gwasanaethau cyffredinol a fydd yn cefnogi gweithlu Prosiect Wylfa Newydd.

**Effaith Cynnydd Poblogaeth – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol**

3.1.85 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

3.1.86 **Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i fod yn ddigwyddiadau cyffredin ac yn aml mae gofyn am fewnbwn gwaith cymdeithasol medrus ac o bosib hefyd wasanaethau eraill i weithio gyda'r unigolion a'r teuluoedd i gefnogi, lleihau risg a diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Er y bydd nifer o deuluoedd yn symud i Ynys Môn o ganlyniad i brosiect adeiladu Wylfa Newydd, fe fydd posibilrwydd, fel gyda diogelu plant, y caiff cartrefi newydd eu creu ac y bydd cyfradd cam-drin domestig yn codi o ganlyniad.**

3.1.87 Fe fydd yn bwysig cydweithio gyda'r Heddlu ac i fonitro lefel trais domestig ar Ynys Môn i weld a yw'n digwydd yng nghartrefi newydd-ddyfodiaid neu gartrefi newydd gaiff eu ffurfio sy'n cynnwys aelodau o weithlu adeiladu Wylfa Newydd.

3.1.88 Mae ymateb i drais domestig yn rhan o gyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol.

3.1.89 Mae Trais a Cham-drin domestig yn ffenomen eang a chymhleth. Y diffiniad traws-lywodraethol o drais domestig yw:

3.1.90 *"unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli, gorfodi neu gamfanteisio rhwng rhai sy'n 16 oed a throsodd sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o deulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y cam-drin gwmpasu, ond nid yw wedi ei gyfyngu i gam-drin:*

a) seicolegol
b) corfforol
c) rhywiol
d) ariannol
e) emosiynol
f) Ymddygiad sy'n rheoli

3.1.91 *('Ymddygiad sy'n rheoli'* yw ystod o weithredoedd sydd wedi eu llunio i wneud person yn israddol a/neu ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau

[61] Slaves trafficked through North Wales 'on daily basis', detective warns, Daily Post, 21 Ebrill 2017 (Dolen)

cefnogaeth, camfanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er mwyn elwa'n bersonol, eu hamddifadu o'r modd angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll neu ddianc a rheoleiddio eu hymddygiad beunyddiol.)

3.1.92 Maent hefyd yn cyfeirio at '*ymddygiad sy'n gorfodi'* fel *"…gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, sarhau a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, gosbi neu ddychryn eu dioddefwr.'*[62]

3.1.93 Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais (Cymru)[63] yn ceisio gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais o'r fath. Ymysg pethau eraill, bwriad y ddeddf yw:

a) Gwella'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac atal, amddiffyn a chefnogi'r dioddefwyr
b) Sicrhau dull sy'n seiliedig ar anghenion, er mwyn datblygu strategaethau fydd yn gosod cyfeiriad strategol cryf ac atebolrwydd cadarnach.
c) Sicrhau perchnogaeth o'r mater ar lefel strategol.
d) Sicrhau cysondeb, ansawdd a chydgysylltiad darpariaeth y gwasanaeth yng Nghymru.

3.1.94 Er y datrysiadau cyfreithiol hyn i atal trais a chamdriniaeth ddomestig, mae'n parhau i fod yn fater mewn sawl cartref.

**Effaith Cynnydd Poblogaeth - Prevent**

3.1.95 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae CSYM y rhagweld effaith negyddol o ran y galw am wasanaethau yn y maes hwn.

3.1.96 Er mai lefelau cyfeirio isel iawn sy'n bodoli mewn perthynas â gweithgarwch *'Prevent'* ar Ynys Môn yn gyfredol, fe allai'r sefyllfa waethygu o ganlyniad i ddyfodiad gweithlu mawr ar gyfer prosiect adeiladu Wylfa newydd, cyfansoddiad y gweithlu hwnnw a'r effaith y gallai ei chael ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn, monitro unrhyw weithgarwch ychwanegol posib fydd y prif angen.[64]

3.1.97 Hefyd, bydd angen ar Horizon i ymgorffori dulliau diogelu 'Prevent' i'w god ymddygiad a gweithredu (mewn cydweithrediad ag asiantaethau statudol) lle amheuir gweithgarwch gan eithafwyr.

3.1.98 Ochr yn ochr â'r llu o gyrff lleol eraill, mae gan CSYM ddylestwydd o dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 wrth arfer ei swyddogaethau, i *"roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth".*

3.1.99 Rhan allweddol o strategaeth Prevent yw "Channel", lle mae'r Heddlu'n cydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill, yn cynnwys cynghorau, i adnabod y rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, i asesu beth

62 '*Canllawiau Trais a Chamdriniaeth Ddomestig'* (Dolen)
63 '*Trais yn erbyn menywod a chamdriniaeth ddomestig', Llywodraeth Cymru:* (Dolen)
64 Casglwyd wedi trafodaeth â chydlynydd 'Prevent' yr Heddlu yn lleol.

allai'r risg fod ac yna ddatblygu cefnogaeth wedi ei theilwra i'r rhai gaiff eu cyfeirio. Mae ynys Môn yn ardal o weithgarwch cymharol isel i Prevent, gyda nifer fechan o gyfeiriadau'n unig wedi eu gwneud am bobl allai fod mewn peryg o gael eu tynnu i weithgarwch eithafol, eithafiaeth asgell-dde yn bennaf.

**Monitro Effaith**

3.1.100 Er bod yr adroddiad hwn wedi ceisio adnabod yr effaith posib prosiect Wylfa Newydd mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, bydd angen gwaith parhaus er mwyn monitro pob maes gweithgarwch er mwyn sicrhau lles y boblogaeth a diogelu enw da a chywirdeb y prosiect ei hun. Trwy gyfrwng y cynigion lliniaru yn yr adroddiad hwn byddwn yn parhau i fonitro effaith y prosiect ac adolygu effaith y prosiect ynghyd ag effeithiolrwydd y cynigion lliniaru.

3.1.101 Wrth i ni adolygu'r deunydd sydd ar gael mewn perthynas ag effaith prosiectau mawr rydym wedi darganfod mai ychydig iawn sydd ar gael ar effaith tymor hwy y cyfnod adeiladu'r prosiectau hynny a sut maent wedi effeithio ar y boblogaeth leol yn ystod y cyfnod adeiladu.

3.1.102 Rydym yn credu bod daearyddiaeth a hunaniaeth unigryw Ynys Môn yn cynnig cyfle ardderchog ar gyfer ymchwil blaengar i werthuso'r effaith tymor hwy hwnnw gan brosiectau mawr ar wead cymdeithasol cymuned leol. Rydym yn credu y byddai astudiaeth o'r fath, o'i chynnal yn annibynnol, yn werthfawr iawn nid yn unig i'r gymuned leol ar Ynys Môn ond hefyd i Horizon, wrth baratoi cynlluniau o'r maint hwn a'u rhoi ar waith.

3.1.103 Yn unol â hynny, byddai CSYM yn croesawu trafodaethau â Horizon a Llywodraeth Cymru parthed y posibilrwydd o gomisiynu astudiaeth o'r fath.

## 4.0 Sefyllfa Polisi

4.1.1 Tra bod dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol a'i asiantaethau partner wedi eu diffinio'n glir, mae gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru rôl ac effaith allweddol mewn perthynas â chydlynu gwaith lleol ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant a sicrhau effeithiolrwydd yr hyn mae sefydliadau'n ei wneud yn unigol a chyda'i gilydd.

### Y Bwrdd Diogelu *Plant*

4.1.2 Mae gan Y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros herio'r asiantaethau perthnasol yn yr ardal fel bod:

a) Mesurau effeithiol yn eu lle ar gyfer AMDDIFFYN plant
b) Cydweithio effeithiol rhwng asiantaethau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn a rhannu gwybodaeth.
c) Rhagweld ac Adnabod lle gallai unigolion a effeithiwyd fod, a gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau sy'n adnabod unigolion yn gynt.
d) Hyrwyddo gwasanaethau cefnogi amlasiantaethol effeithiol

e) Hyrwyddo dulliau rhyngasiantaethol o weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau lle gallai poblogaethau fod mewn perygl o niwed.
f) Defnyddio hyfforddiant rhyngasiantaethol a lledaenu dysgu ac ymchwil er mwyn helpu i adeiladu gweithlu rhyngasiantaethol sy'n fwy hyderus a gwybodus.

**Y Bwrdd Diogelu *Oedolion***

4.1.3 Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

a) Amddiffyn oedolion o fewn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac sydd, neu sydd mewn perygl o, ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod.
b) Atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

4.1.4 Mae'r datblygiadau a gynigiwyd ar gyfer lliniaru effaith y newidiadau mewn poblogaeth o ganlyniad i brosiect adeiladu Wylfa Newydd yn cydweddu'n dda â'r dulliau a ddefnyddir gan y bwrdd Diogelu a CSYM wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn y maes hwn.

## 5.0 Bylchau mewn Gwybodaeth/Dogfennaeth

5.1.1 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn ymwneud yn bennaf â maint a chyfansoddiad y gweithlu adeiladu a'r trefniant arfaethedig ar gyfer eu lletya. Darparwyd rhai ffigyrau mewn perthynas â dibynyddion ddaw gyda'r gweithlu adeiladu ond mae'n ymddangos bod Horizon yn rhagdybio mai ychydig o'r gweithlu fydd yn dod â dibynyddion gyda nhw. Bydd yn rhaid aros i weld.

5.1.2 Mae'r wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas â holl agweddau diogelu ar Ynys Môn yn gymharol gyfyngedig ac nid yw asiantaethau yn cadw llawer iawn o ddata yn y maes hwn. Ar yr un pryd, mae Ynys Môn yn awdurdod cymharol fychan ac mae'r niferoedd yn fychan weithiau fel bod newidiadau bach/unigol yn gallu effeithio arnynt yn anghymesur.

5.1.3 Cyfyngedig iawn yw'r ymchwil blaenorol neu'r dystiolaeth gwerthuso sydd ar gael mewn perthynas ag effaith prosiectau adeiladu mawr (neu debyg) o safbwynt Diogelu. Hefyd, nid yw rhai o'r deunyddiau gwerthuso a gynhyrchwyd ar gael yn gyhoeddus.

5.1.4 Seiliwyd dogfennaeth yr Adroddiadau Yngynghori Cyn Ymgeisio (PAC1, PAC2 a PAC3) blaenorol ar y gofyniad asesu effaith culach (oedd yn bodoli cyn y ddeddfwriaeth Lles gyfredol) ac nid yw'n mynd i'r afael yn briodol â lles. Dyma'r sefyllfa er i CSYM godi'r mater yn ei ymateb i'r ddogfen diweddariad prosiect a'r Adroddiad Cynnydd Asesiad Effaith ar Iechyd (HIAPR) a hefyd mewn nifer o drafodaethau rhwng Pŵer Niwclear Horizon, CSYM a phartneriaid lles dros y 6 mis diwethaf.

5.1.5 Mae'r HIAPR yn trafod y galw am rai gwasanaethau meddygol ac iechyd ond nid yw'n cyfeirio o gwbl at wasanaethau gofal cymdeithasol a lles. Mae hepgor

hyn yn arwyddocaol iawn gan fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithredu ac integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Mae hyn yn anffodus gan fod CSYM wedi nodi hyn yn flaenorol yn ei ymateb i'r ddogfen Diweddariad Prosiect a'r HIAPR.

5.1.6 Hefyd, mae'r Adroddiad Asesu Effaith Amgylcheddol (EIAR) yn trafod dehongliad hynod gul o wasanaethau cyhoeddus, ac nid yw'n cyfeirio'n benodol at wasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, ac mae hepgor materion iechyd/salwch meddwl hefyd yn arwyddocaol.

5.1.7 Fel y cynigiwyd yn flaenorol, mae CSYM yn gofyn am drafodaeth fwy manwl ar sut eir i'r afael ag effeithiau iechyd, gofal cymdeithasol a lles y datblygiadau arfaethedig fel rhan o'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys hyn yng nghwmpas yr asesiad cydlyniad cymunedol (na chafodd ei gynnwys yn PAC1 na PAC2 ac nid yw wedi dechrau eto). Fe ddylai'r Strategaeth Iechyd a lles arfaethedig hefyd fod yn ganolbwynt i'r trafodaethau hyn. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n bennaf ar un agwedd o ddarparu gofal cymdeithasol, yn benodol felly, Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, ac mae'n ychwanegu hynny fel testun ar gyfer y drafodaeth hon.

## 6.0 Crynodeb o'r Cynigion Lliniaru

6.1 Yn seiliedig ar yr uchod, cyflwynir crynodeb o'r cynigion lliniaru yn Nhabl 9 (dros y dudalen)

**Tabl 9: Crynodeb o'r Cynigion Lliniaru**

| Mater | Crynodeb Lliniaru | Math o Liniaru | Pwy ddylai fod yn Gyfrifol am y Lliniaru? | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd | Ni ellir rhagamcan yr effaith lawn debygol mewnlifiad o blant ar wasanaethau plant. Bydd yn bwysig sicrhau trefn effeithiol o fonitro'r nifer o ddibynyddion/plant sy'n symud i Ynys Môn, ynghyd â monitro'r nifer o gyfeiriadau diogelu plant a dangosyddion cysylltiedig, er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am unrhyw weithredu pellach. | Rhwymedigaeth | CSYM | Bydd y gwasanaeth wedi ei sefydlu cyn dyfodiad y gweithlu. |
| Diogelu plant a phobl ifanc | Ni ellir rhagamcan yr effaith lawn debygol mewnlifiad o blant ar wasanaethau plant nes bod syniad clir o faint o blant fydd yn cyrraedd. Fodd bynnag, fe fydd rhywfaint o effaith mewn perthynas â phlant angen gofal a chefnogaeth ac amddiffyn plant. Bydd yn bwysig sicrhau trefn effeithiol o fonitro'r nifer o ddibynyddion/plant sy'n symud i Ynys Môn, ynghyd â monitro'r nifer o gyfeiriadau diogelu plant a dangosyddion cysylltiedig, er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am unrhyw weithredu pellach.<br><br>Yn y tymor hwy, mae plant sydd angen eu hamddiffyn yn aml yn parhau i fod yn blant sydd angen gofal a chefnogaeth. Unwaith eto, er bod y niferoedd yn ymddangos yn gymharol isel, fe all y lefel angenrheidiol o gefnogaeth fod yn uchel ac yn drwm ar adnoddau. | Cronfa Gwydnwch Cymdeithasol | Horizon i ddarparu adnodd.<br><br>Bydd CSYM yn darparu gofal a chefnogaeth yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. | Bydd y gwasanaeth wedi ei sefydlu cyn dyfodiad y gweithlu. Blwyddyn 3 y cyfnod adeiladu wrth i deuluoedd ddechrau cyrraedd.<br><br>Monitro gweithredol yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. |

| Mater | Crynodeb Lliniaru | Math o Liniaru | Pwy ddylai fod yn Gyfrifol am y Lliniaru? | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| | Efallai y bydd Horizon hefyd yn dymuno ystyried pa ddarpariaeth a chyngor a gwasanaethau cefnogi y mae'n eu darparu i'r gweithwyr hynny sy'n dod, neu'n ystyried dod, ag aelodau teulu dibynnol, yn cynnwys plant, gyda nhw. | | | Yr angen i sefydlu proses ar gyfer monitro nifer y teuluoedd wrth iddynt gyrraedd gan y bydd gan hyn oblygiadau i Addysg, Gwasanaethau Plant ac Iechyd. |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | Mae angen ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r grŵp darparu lleol i sicrhau bod y strategaeth a'r trefniadau sydd yn eu lle ar Ynys Môn (ond hefyd yng Ngwynedd) yn addas i bwrpas ac wedi eu hariannu'n ddigonol ar gyfer cynnydd posib mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant.<br><br>Gall y goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â chefnogi plant a phobl ifanc a ddioddefodd gamfanteisio'n rhywiol ar blant fod yn arwyddocaol iawn, gan dynnu ar staff mewnol a chefnogaeth arbenigol gan sefydliadau megis Barnardo's. Mae cost gofal preswyl arbenigol yn neilltuol o uchel. Bydd angen gofal preswyl arbenigol ar blant/pobl ifanc bob blwyddyn. | Rhwymedigaeth | Horizon i ddarparu adnodd.<br><br>Bydd CSYM yn darparu gofal a chefnogaeth yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.<br><br>Bydd CSYM yn comisiynu cefnogaeth arbenigol. | Nawr – Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth ac adeiladu gwydnwch cyn y cyfnod adeiladu. |

| Mater | Crynodeb Lliniaru | Math o Liniaru | Pwy ddylai fod yn Gyfrifol am y Lliniaru? | Pryd? |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | Fe ddylai cod ymddygiad staff Horizon fynd i'r afael â'r materion hyn yn benodol, gan atgoffa'r gweithlu o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion tuag at y camfanteisio posib ar blant a phobl ifanc a'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â'u gweithgarwch rhywiol â nhw. Bydd angen ar Horizon i ystyried hygyrchedd pornograffi ar y rhyngrwyd yn ei safleoedd lletya ac i gymryd camau i sicrhau na fydd deunydd annerbyniol ac anghyfreithlon ar gael drwy ei rwydweithiau mynediad i'r rhyngrwyd. | | | |
| Diogelu Pobl Hŷn | Gellir lliniaru'r niwed posib allai ddigwydd i bobl hŷn wrth i Horizon gydweithio â CSYM i sicrhau bod diogelu'n elfen allweddol o waith y gwasanaeth cydweddu llety.<br><br>Dylai gwasanaeth Lletya Horizon ymwneud â chymaint o'r gweithlu â phosib gan weithio gyda darpar landlordiaid sy'n 'byw yn yr eiddo' er mwyn eu helpu i ddeall eu hawliau nhw a hawliau eu tenantiaid ac i sicrhau y cymerir y camau priodol i wirio addasrwydd y trefniadau. Bydd angen adnoddau ychwanegol ar y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cefnogi unigolion gaiff eu heffeithio. | Cronfa Gwydnwch Cymdeithasol | Horizon a CSYM | Monitro'r cyfeiriadau Diogelu Oedolion a'r goblygiadau dilynol i'r gwasanaeth. |
| Diogelu Pobl Hŷn mewn | Gall fod angen adnoddau ychwanegol ar y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cefnogi'r unigolion gaiff eu heffeithio a'r rhai sydd o bosib | Cronfa Gwydnwch Cymdeithasol | CSYM | Monitro'r cyfeiriadau Diogelu Oedolion |

| Mater | Crynodeb Lliniaru | Math o Liniaru | Pwy ddylai fod yn Gyfrifol am y Lliniaru? | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| perygl o Gamdriniaeth | mewn perygl. Gellid cyflogi Cydlynydd Ardal Leol gyda ffocws ar addysgu cymunedau. Y ffordd orau i'r Awdurdod Lleol gomisiynu gwasanaeth o'r fath fyddai drwy sefydliad trydydd sector lleol. | | | a'r goblygiadau dilynol i'r gwasanaeth. |
| Ymwneud â'r Fasnach Gyffuriau Anghyfreithlon | Mae' debygol y bydd angen ar y gwasanaethau lleol i gryfhau eu cydweithredu ag asiantaethau eraill a gallu eu staff eu hunain i adnabod ac ymateb i'r materion hyn. Bydd arnynt hefyd angen gwella eu gallu i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl ac oedolion yn gyffredinol ac i'w dargyfeirio'n effeithiol oddi wrth y gweithgareddau hyn. Fe allai ar wasanaethau'r Awdurdod fod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer unigolion gaiff eu heffeithio, ond nid yw ei hyd a'i led yn glir eto.<br><br>Bydd gan Horizon rôl sylweddol wrth gefnogi ei weithlu i beidio ag ymwneud â'r fasnach cyffuriau anghyfreithlon.<br><br>Fe fyddem yn disgwyl gweld bod y cod ymddygiad staff yn cynnwys mesurau trwyadl er mwyn sicrhau y cedwir y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon gan y gweithlu at yr isafswm. | Cronfa Gwydnwch Cymdeithasol | Horizon i roi trefn gadarn o gynnal profion cyffuriau ac alcohol ar waith er mwyn atal marchnad a diwylliant cyffuriau rhag datblygu.<br><br>Yn absenoldeb trefn gadarn o gynnal profion, bydd angen monitro a oes twf yn y farchnad gyffuriau'n lleol, gyda Horizon i ariannu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r canlyniadau, yn enwedig ar gyfer yr Heddlu ac Iechyd. | Monitro'r cyfeiriadau Diogelu Oedolion a'r goblygiadau dilynol i'r gwasanaeth |

| Mater | Crynodeb Lliniaru | Math o Liniaru | Pwy ddylai fod yn Gyfrifol am y Lliniaru? | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| Masnach Pobl a/neu Gaethwasiaeth Fodern | Mae angen ar CSYM i allu darparu llety, cyngor a chefnogaeth i bersonau a fasnachwyd ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol am blant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Fel nodwyd uchod, hyd yn oed lle bo'r niferoedd yn fychan, gall yr effaith a'r adnoddau sydd eu hangen fod yn arwyddocaol. Cynigir bod yr awdurdod lleol yn penodi swyddog i gefnogi gweithio amlasiantaethol, yn ystod y cyfnod adeiladu.<br><br>Mae angen ar Horizon i fod yn gwbl eglur mewn perthynas â sut y bydd yn mynd i'r afael a gweithgarwch caethwasiaeth fodern, nid yn unig ymhlith y gweithlu gaiff ei gyflogi'n uniongyrchol, ond yn bwysicach efallai, ymysg ei isgontractwyr a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. | Rhwymedigaeth | Horizon.<br><br>Efallai y bydd gofyn i CSYM ddarparu llety dros dro a chefnogaeth. | Nawr.<br>Monitro gweithredol gan Yr Heddlu. |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Rhywiol a Thrais Domestig | Fe fydd yn bwysig cydweithio gyda'r Heddlu ac i fonitro lefel trais domestig ar Ynys Môn i weld a yw'n digwydd yng nghartrefi newydd-ddyfodiaid neu gartrefi newydd gaiff eu ffurfio sy'n cynnwys aelodau o weithlu adeiladu Wylfa Newydd. | Rhwymedigaeth | CSYM | Nawr – Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth ac adeiladu gwydnwch cyn y cyfnod adeiladu. |
| Prevent | Monitro gweithgarwch o natur eithafol a chyfeiriadau 'Prevent'. | Rhwymedigaeth | Cadeirydd yr Heddlu â mewnbwn gan yr Awdurdod Lleol. | Monitro gweithredol. |